"Profwch bob peth: deliwch yr hyn sydd dda."—Paul.

YR

YMOFYNYDD.

RHYDDID, GWIRIONEDD, CARIAD.

CYFRES NEWYDD.] AWST, 1875. [RHIF 30.

CYNNWYSIAD.

	TUD.
Llenyddiaeth yr Undodiaid yn Nghymru	121
Ein Bendithion Beunyddiol	196
Cerddoriaeth	129
Cyfiwyniad Tysteb i'r Proffeswr Evans	131
Cynghor Tad i'w Fab	133
Ein Cwrdd Blynyddol	134
Cyfres Ffydd Undodwr	135
Careg at gyfodi Cofgolofn i Gwilym y IV.	141
Marwgofion	142
Barddoniaeth	143

Pris Tair Ceiniog.

ABERDAR:

ARGRAFFWYD GAN JENKIN HOWELL, 16, COMMERCIAL-PLACE.

YR

YMOFYNYDD.

CYFRES NEWYDD.] AWST, 1875. [RHIF. 30.

"Profwch bob peth: deliwch yr hyn sydd dda."—PAUL.

LLENYDDIAETH YR UNDODIAID YN NGHYMRU.

MAE'N llawn bryd bellach, yr wyf yn tybied, i wneuthur rhyw fath o goffadwriaeth o'r hyn mae Undodiaid wedi wneuthur i gyfoethogi llenyddiaeth Gymreig. Mae'r hen lyfrau yn cyflym ddiflanu, a llawer o honynt ond odid eisoes wedi myned tuhwnt i bob gafael. Yr wyf wedi bod yn llwyddianus i ddyogelu rhai rhag syrthio i ebargofiant, a thrwy garedigrwydd darllenwyr yr YMOFYNYDD yr wyf yn gobeithio gweled y *list* yn cael ei gwneuthur yn fwy cyflawn etto. Da chwi, gyfeillion, rhowch help llaw. Chwiliwch y llyfrgelloedd, bydd tipyn o awyriad (*ventilation*) i'r hen lyfrau ddim yn un niwed. O bossibl y deuwch ar draws rhai trysorau gwerthfawr. Peidiwch meddwl mae llyfrau newydd ydyw pob peth: peidiwch dibrisio yr hen. Yr hen sydd wedi gwneuthur y newydd yn bossibl. Edrychwch drostynt, a danfonwch wybod beth fydd y canlyniad at Olygydd yr YMOFYNYDD.

1. "Llun Agrippa, neu'r O fewn ychydig Gristion wedi ei ddadguddio: wedi ei sgrifennu yn Seisonig gan *F. Mead* ac yn Gymreig gan *Jencin Jones*. A'i brintio yng Nghaerfyrddin gan N. Thomas dros Gristmas Samuel a Lewis Griffies. A.D. 1723." 340 tdd.

Gwall ydyw *F.* Mead. Matthew Mead oedd enw yr awdwr. Yr oedd Jencin Jones, Llwyn, yn fyfyriwr yn Ngholeg Caerfyrddin pan y cyhoeddodd y llyfr rhagorol uchod. Mae'r gwaith wedi myned trwy amryw argraffiadau, yr olaf yr wyf yn meddwl yn ddiweddar gyda rhagymadrodd gan y Parch. Ddr. Thomas Rees, Abertawe.

2. "Dydd y Farn Fawr, gan Thomas Vincent. Cyfieithwyd gan Jenkin Jones. 1727."

3. "Cyfrif Cywir o'r Pechod Gwreiddiol, gan Jenkin Jones. 1729."

4. "Catecismau i Blant, gan Jenkin Jones. 1732."

5. "Gwersi i blant a dynjon jeuangc, mewn dau gatecism. (1.) Catecism Athrawiaethol yn fyrr, mewn chwech o wersi. (2.) Catecism Athrawjaethol ac Ymarferol, yn gryn helaeth, mewn Chwech o rannau gyda Rhagymadrodd yn dangos yr Angenrheidrwydd o Grefyddol Addysg. Gan Samuel Bourn. Wedi ei gyfieithu i'r Cymraeg o'r Ail Argraphjad yn Saesonaeg gan Edward Evan. Caerfyrddin: Argraphwyd gan Efan Powel yn M,DCC,LVII."

6. "Hymnau Cymmwys i Addoliad Duw, o waith y Diweddar Barchedig Mr. Jenkin Jones. At y rhai y chwanegwyd Caniadau o waith yr un Awdwr, ynghyd a'i Farwnad gan Evan Thomas. Caerfyrddin: Argraphwyd gan J. Ross, yn Heol Awst, dros Stephen Jones. MDCCLXVIII."

Mae y rhagymadrodd "at y darllenydd" wedi ei ysgrifenu gan D. Lloyd.

7. "Trysorfa Gwybodaeth, neu Eurgrawn Cymraeg."

Wrth bob tebyg, hwn oedd y Cylchgrawn cyntaf a ymddangosodd yn yr iaith Gymraeg. Daeth y rhifyn cyntaf allan Mawrth 3, 1770, a'r olaf Medi 15 yn yr un flwyddyn. Bu farw o ddiffyg cefnogaeth. Ymddangosai bob pythefnos, a'r golygydd oedd y Parch. Josiah Rees, Gelligron. Argreffid ef gan I. Ross, yng Nghaerfyrddin.—Gweler Traethodau Llenyddol Dr. Edwards, y Bala, a'r *Penny Cyclopedia* dan y gair *Welsh*.

8. "Hunan-Adnabyddiaeth; neu Draethawd, yn dangos Natur a Mantais y cyfryw Wybodaeth Bwysfawr, a'r Ffordd i'w Chyrhaeddyd: ynghymmysg ag amryw o Ystyriaethau ar y Natur Ddynol. Gan John Mason, A.M. Wedi ei gyfieithu i'r Gymraeg gan Josiah Rees. *E Coelo descendit Gnothi Seauton.*—Juv. *The proper knowledge of mankind is man.*—Pope. Caerfyrddin: Argraphwyd dros y Cyfieithydd gan I. Ross. 1771. Ar werth hefyd gan Dafydd Jones, Aberhonddu; Dafydd Morgan, Castellnedd; R. Rhydderch, Gwerthwr-Llyfrau, yng Nghaerfyrddin; A—— Jenkins, Gwerthwr-Llyfrau, Bontfaen. (Pris Swllt beb ei rwymo.)" 164 tdd.

9. "Ystyriaeth o Anchwiliadwy Olud Crist, a gwahoddiad i bawb i'w dderbyn a'i ddefnyddio; mewn Pregeth, a gyhoeddir ar annogaeth rhai a'i clywsant yn y Cyfarfod o Weinidogion, yn Watford, gerllaw Caerffili, Awst 10, 1774. At ba un y chwanegwyd dwy hymn wedi eu troi o'r Sais'neg. Gan Solomon Harries.

Durate, et vosmet rebus servate secundis.—Virgil.

Depascimur aurea Dicta.—Lucret.

Caerfyrddin: Argraphwyd dros yr Awdwr gan J. Ross. MDCCLXXIV. [Pris Tri Swllt y Ddysen i'r cyfryw Gyn'lleidfaoedd a brynant nid llai na thair Dysen; Grot am bob un i eraill.]" 32 tdd.

Gweinidog yn Abertawe oedd Mr. H. Bu yn athraw y Coleg Henadurol am yn agos y ddwy flynedd olaf o'i oes. Ganwyd ef Chwefror 24, 1726. Bu farw Awst 15, 1785. Yr oedd yn enedigol o Sir Aberteifi, a bedyddiwyd ef gan Philip Pugh, yr hwn a fedyddiodd 680 o blant mewn 51 mlynedd. Aeth i Goleg Caerfyrddin yn 1746, y pryd hwnw dan ofal Samuel Thomas. Ordeiniwyd ef yn Abertawe, Medi

4, 1751. Mae Dr. Rees (*Nonconf.* p. 210) yn ei alw yn Arminiad, neu yn hytrach Pelagiad. Yr oedd ei fab, y Capten W. Harries, yn arfer dywedyd mai Undodwr oedd. Dywed y Dr. T. Rees, o Lundain, ei fod yn wrth-drindodwr. Mewn pregeth a gyhoeddwyd ganddo yn 1783, mae'n dywedyd nad yw Sosiniaeth yn rhoddi y parch dyladwy i Grist. Oddiwrth y bregeth hon (*The Practical Influence of Christianity on Believing Minds*), y casgliad naturiol yw mai Ariad oedd. Mae pob lle i gredu ei fod yn wrth-drindodwr. Ystyrid ef yn ysgolhaig da yn Lladin, Groeg, a Hebraeg.

10. "Golwg ar Gynneddfau Gwasanaeth ac Anrhydedd Gwasanaethwyr Crist; mewn pregeth a lefarwyd o flaen Cymmanfa o Weinidogion yn y Dref Wen, yn gyfagos i'r Castell Newydd yn Emlyn, ar y 19 o fis Ebrill, 1775, gyda dwy hymn. Gan Edward Evans. Caerfyrddin: Argraffwyd gan J. Ross. MDCCLXXV. [Pris Dau Swllt y Ddysen i'r cyfryw Gyn'lleidfaoedd a brynont nid llai na thri Dysen, a thair Ceiniog am bob un i eraill.]" 24 tdd.

11. "Pregeth yn erbyn Enllib a phob Gogan-air. Gan Josiah Rees. Caerfyrddin: Argraffwyd gan J. Ross. 1776."

Gweler Ymofynydd 1864, lle mae'r bregeth ragorol hon wedi ei hail argraffu.

12. "Bywyd Duw yn Enaid Dyn." 106 tdd. Llyfr ydyw hwn o waith Henry Scougal, yr hwn a anwyd yn yr Alban, 1650, ac a fu farw Mehefin 13, 1678. Gweler *Yr Athraw* am 1866. Cyfieithiwyd ef i'r Gymraeg gan y Parch. David Davis, wedi hyny o Gastell-hywel. Mae'r copi sydd yn fy meddiant i yn anmherffaith—y *title-page* a rhai o'r dail yn eisieu ynddo. Mae yn cynnwys cofres o enwau tanysgrifwyr, gyda rhif y copiau a dderbynient, e. e. Rev. Noah Jones, Cwmmawr, 100; Jonathan Jones, Rhyd-y-bont, 100; Rev. David Lloyd, deceased, for Gallt-placca 200, Llwyn-rhyd-Owen 155, Penrhiw 68, Kilie 140, Muduroilin 36. Ychydig yn nes yn mlaen cawn Rev. Lewis Rees, Mynydd-bach, 100; Josiah Rees, Gellionnen, 100. Mae rhagymadrodd o 7 tud. gan y cyfieithydd, ac y mae wedi ei lawnodi, Dav. Davies, Kilie, Medi y 3dd, 1779.

13. "Gwaith Prydyddawl y diweddar Barchedig Dafydd Llwyd, Gweinidog Llwyn-Rhyd-Owen, yn Sir Aberteifi. Caerfyrddin: Argraffwyd gan I. Ross, yn Heol Awst. MDCCLXXXV." 24 tdd.

Cyhoeddwyd y gwaith hwn yn hir wedi marwolaeth yr awdwr. Bu farw D. Ll. Chwefror 4, 1779, yn 54 oed, wedi bod rhwng 36 a 37 yn y weinidogaeth yn Llwyn-rhyd-Owen a Phenrhiw, 22 yn Nghallt-y-Placca, a 9 yn Nghiliau.

14. "Difyrrwch diniwaid,
I Blant i'w hystyriaid,
I'w cwnnu ar Gynnydd
* Mewn Deall a G:
Sef deunaw o Ganiadau
Ar amryw Destynau.

* Yn yr "Erratum" ar ddiwedd y llyfr dywedir, "Darllen *Mewn Deall a Chrefydd.*"

Gwedi eu cyfansoddi ar Fesur Cerdd, gan Sion Llywelyn, o Goed-y-cymmar, yn y Faynor, Sir Frecheiniog. Gyd a Naw o Hymnau duwiol, ar amryw Destynau; cymmwys i'w canu mewn Addoliad Cyhoeddus.

Cantorion doethion dethawl, y Faynor,
I foli Duw nefawl,
Cydseiniwch yn gysonawl
Mewn purion Fesyron Fawl.

Tomas Wiliam Wyr i'r Awdwr.

Caerfyrddin: Argraphwyd gan I. Ross, yn Heol Awst, 1791. [Pris Chwe' Cheiniog.]" 60 tdd.

15. "Appel at Broffeswyr difrifol a diduedd Cristianogrwydd ar y pynciau canlynol: sef, I. Yr ymarfer a reswm mewn pethau crefyddol. II. Gallu dyn i wneuthur ewyllys Duw. III. Pechod Gwreiddiol. IV. Etholedigaeth a Gwrthodedigaeth. V. Duwdod Crist. VI. Cymmod am bechod trwy farwolaeth Crist. Gan Garwr yr Efengyl. At yr hyn y chwanegwyd Hanes ferr o gyfodiad yr athrawiaethau hyn. 'I ni nid oes ond un Duw y Tad; ac un Cyfryngwr, y dyn Crist Iesu,' 1 Cor. viii. 6.—1 Tim. ii. 5. Caerfyrddin: Argraffwyd gan J. Ross, yn Heol Awst. MDCCXCII." 48 tdd.

16. "Amddiffyniad o Bennadwriaeth y Tad, mewn Pregeth a bregethwyd gerllaw *Brechfa*, yn Sir *Gaerfyrddin*, Ionawr 26, 1792. Gan T. Evans. Fy Nhad i, yr hwn a'i rhoddes i mi sydd fwy na phawb, Ioan x. 29. Ond hyn yr ydwyf yn ei gyffesu i ti, mai yn ol y ffordd y maent hwy yn ei galw yn heresi, felly yr wyf fi yn addoli Duw fy nhadau, Act. xxiv. 14. Eithr gair yr Arglwydd sydd yn aros yn dragywydd; a hwn yw'r gair a bregethwyd i chwi, 1 Pedr i. 25. Caerfyrddin: Argraphwyd gan J. Ross, yn Heol Awst, 1792."

17. "Ymborth ar Ddydd Ympryd: neu, Ychydig o resymmau prydlawn tu ag at wasanaeth y Bobl ddaionus hynny ag sydd yn credu ym mhriodoldeb ac effaith Ymprydiau Cyhoedd. Gan William Richards, M.A., aelod o Gymdeithas yn Pensylfania tu ag at annog yn y blaen ddiddymiad Caethiwed.

Pan weddioch lawer, ni wrandawaf: eich dwylaw sydd lawn o waed, Esay i. 15.

Wele, i ymryson a chynnen yr ymprydiwch, ac i daro â dwrn anwiredd.—Onid dyma'r ympryd a ddewisais? dattod rhwymau anwiredd, tynnu ymaith feichiau trymion, a gollwng y rhai gorthrymmedig yn rhyddion, a thorri o honoch bob iau? &c., Esay lviii.

Nac ymddangoswch i ddynion eich bod yn ymprydio, Mat. vi. 18.

Rhaid yw ufuddhau i Dduw yn fwy nag i ddynion, Act. v. 29.

Pe bae cenhedloedd crist'nogol yn genhedloedd o grist'nogion, ni byddai dim rhyfel mwyach: [nag ymprydiau rhagrithiol chwaith.]

Soam Jenyns.

Argraphwyd tros y Cymry Un-iaith. [Pris Dwy Geiniog.]" Dim *date*.

Bu Mr. Richards, wedi hyny Dr. Richards, o Lynn, farw yn 1818, yn 69 oed. Mae'n dra thebyg fod y bregeth hon wedi ei chyhoeddi rhywbryd tua 1794.

18. "The Miscellaneous Repository, neu y Drysorfa Gymmysgedig. Rhifyn Cyntaf, Pris Chwe' Cheiniog, i ddyfod allan yn Chwarterol. Am y Chwarter Haf, 1795. Glyn wrth ddarllain.—PAUL.

Gwell yw Doethineb i'm gwydd
Iawn fedrus nac ynfydrwydd,
Rhagoriaeth Haul ddi-draul drwch
Da allu ar dywyllwch.—*Edward Evan.*

Caerfyrddin: Argraphwyd gan I. Ross, yn Heol Awst.—1795."

Tri rhifyn a ymddangosodd, yr ail am y chwarter Hydref, 1795. Mae'r trydydd heb un dyddiad ar ei ddechreu, ond y mae llythyr ar ei ddiwedd wedi ei ddyddio Mawrth 31, 1796. Mae y rhifynau yn cynnwys 48 tdd. bob un.

19. "Yr Egwyddorwr, neu Ymofyniad i athrawiaeth yr Ysgrythyrau mewn perthynas i'r unig wir Dduw, a gwrthddrych addoliad crefyddol. Gan Theophilus Lindsey, A.M. Wedi ei gyfieithu i'r Gymraeg, gan Thomas Evans. Caerfyrddin: Argraphwyd gan J. Ross, yn 1796."

Cyhoeddwyd argraffiad newydd yn 1865, gan D. Jenkins, Heol-y-Wig, Aberystwyth. 84 tdd. Gwel *Gardd Aberdar*, tud. 106.

20. "Casgliad o Hymnau gan Josiah Rees."

Mae y llyfr hwn genyf, ond heb y *title page*.

21. "Casgliad o Salmau allan o waith Isaac Watts, ac amryw eraill: wedi eu haddasu at Addoliad Cymdeithasol. Gan Josiah Rees. Salm xlvii. 7, Canwch fawl yn ddeallus. Carmarthen: Printed by John Ross. 1797."

22. "Y Maen Tramgwydd: neu ddau Bennill o Ymofyniad mewn perthynas i Faterion Crefydd; sef Etholedigaeth a Gwrthodedigaeth, ac Ewyllys Rydd; yn nghyd ag attebiad i'r Gofynion. At yr hyn yr ychwanegwyd Can Arall, o Ymddiffyniad i'r Attebiad gan yr un Awdwr. Gan Evan Thomas, Prydydd a Darllenydd yn Llanarth. 1799."

Mewn rhagymadrodd dywedir fel hyn:—"Yr hanes oreu ag allwyd gael am y cerddi canlynol, ydyw, i ryw weinidog dderbyn y gofyniadau oddiwrth un o'i wrandawwyr, a'u danfon at Evan Thomas Rhys, yr hwn a gyfeiriodd yr atteb iddynt, at y gweinidog: *Y parchus athraw* tirion, &c.

Y gan hon a gyhoeddwyd cyn y flwyddyn 1760, ac a attebwyd yn fuan gan Evan Dafydd Jenkin, o Gwswch, gwr enwog am ei ddaioni a'i ddifrifwch, eithr mwy hynod am ei zel dros *yr arfaethau* nag am ei ddawn mewn barddoniaeth."

Cyhoeddwyd argraffiad arall gan J. Harris, Caerfyrddin, yn 1826.

(I'w barhau.)

Bydd yn hyfrydwch mawr genyf gael fy ngalluogi i lenwi i fyny y diffygion sydd yn yr uchod. Mae genyf le i gredu fod amryw lyfrau wedi eu gadael allan,—rhai o waith Josiah Rees, Dr. W. Richards, Mr. Williams, Aberteifi, T. Evans, ac ereill. Carwn hefyd gael y *title pages* lle nad ydynt wedi eu rhoddi uchod.

T. C. U.

EIN BENDITHION BEUNYDDIOL.

Yr hyn a ganlyn sydd adroddiad gwirioneddol o ymddyddan a gymerodd le rhwng merch fechan a'i mam rai blynyddau yn ol ar brydnawn teg yn yr haf. Eisteddai y fam yn unig yn ei hystafell i fwrw ei blino, wedi bod yn gweithio yn galed trwy y boreu, pan agorwyd y drws, ac y gwnaeth merch fechan, lan yr olwg, o gylch unarbymtheg oed, ei hymddangosiad yn dra sydyn ac annysgwyliadwy.

"Mam," ond gan y meddyliai fod ei mam yn cysgu, ychwanegodd gyda brys, "Oh! yr wyf yn begian eich pardwn, mam; ni ddymunwn er dim eich aflonyddu; gallaf aros hyd yr hwyr, neu hyd oni fyddo genych chwi ychydig amser hamddenol, ond yr wyf yn awyddus iawn i siarad â chwi ar bwnc sydd yn ymddangos i mi yn un pwysig iawn."

"Deuwch i mewn yn awr, fy nghariad. Beth ydych am siarad yn ei gylch?"

"Oh, mam, yn nghylch ein bendithion beunyddiol, a rhai gofidiau a thristwch hefyd, a pha fodd, neu yn mha yspryd y dylem ni dderbyn yr oll."

"Gadewch i ni siarad yn awr, fy anwyl ferch; y mae yn awr briodol ddigon i ymddyddan am bethau pwysig o'r fath."

Cauodd Shuan y drws, a chan dynu ei hystol yn agos i'w mam dechreuodd,—

"Yr wyf am ofyn i chwi, mam, onid ydym yn dra diofal ac annghofus o'r bendithion a'r trugareddau beunyddiol ydym yn dderbyn o law ein Duw cariadlawn?"

"Beth ydych yn feddwl, fy mhlentyn?"

"Yr wyf yn meddwl nad ydym ni yn cofio yn ddigon aml, nac yn diolch digon iddo am ein hangenrheidiau beunyddiol, ac nad ydym mor siriol ag y dylem fod ar lawer o brydiau."

"Beth sydd wedi peri i chwi feddwl felly, Shuan? Gwyddoch yn dda fod trugareddau Duw yn newydd bob boreu, ac y dylid diolch iddo ef am danynt bob dydd."

"Gwir hyny, mam, ond gwell fyddai i mi ddweyd wrthych ar unwaith beth sydd wedi peri i mi feddwl am hyn o beth ar yr adeg bresenol. Yr wyf wedi newydd fod ar ymweliad ag hen Fari Thomas; ar y ffordd i'w thŷ hi cyfarfyddais â Matty Rees, yn llefain yn dost, ac yn gofyn am nerth Duw i'w galluogi i ddal i fyny yn ngwyneb tristwch a cholled fawr; a phan gyrhaeddais dŷ hen Fari, yr oedd hi yn molianu Duw am ei chyssuron, gyda dagrau llawenydd a gorfoledd ar ei gruddiau."

"Wel, fy merch, dangosai bob un o honynt deimladau iawn yn ddiau. Beth ydych yn gofyn esponiad arno?"

"Dywedaf wrthych mam. Gwyddoch fy mod i yn myned gyda chwi yn aml i weled pobl dlodion, a mynych yr wyf yn treulio diwrnod gyda Matty Rees, Catherine a Mary Davies, a'm cyfeillion ereill. Yr ydych yn cofio pan fu Mrs. Davis farw y flwyddyn ddiweddaf, a phan

foddodd Rhys Rees, druan o hono, i chwi ddywedyd pa mor dda oedd genych i weled fod Mari, a Matty, ac Alice dlawd yn edrych i fyny at Dduw am gymhorth i'w dal i fyny yn wyneb eu treialon trwm. Ond pan y mae pawb yn hapus gartref, a phob dyn yn dwyn ei gyssuron arferol gydag ef, nid wyf yn meddwl mam—nid wyf yn sicr—ond nid wyf yn meddwl eu bod hwy yn cofio rhoddi diolch a meddwl cymmaint am Dduw a ddylent, ac ofnwyf nad wyf fi fy hunan yn cofio hefyd," ebe y ferch ddidwyll yma, fel yr oedd y dagrau yn llanw ei llygaid.

"Fy anwyl Shuan," ebe Mrs. Morgan, "y mae yn hoff iawn genyf yn wir eich clywed chwi yn siarad â mi ar y pwnc pwysig yma; pwnc yw sydd wedi bod dan fy sylw difrifol laweroedd o weithiau, a rhaid yw i mi gyfaddef ei fod wedi achosi, ar rai prydiau, yr un myfyrdodau yn fy meddwl i â'r rhai ydych chwi yn awr wedi ei datgan i mi; ond cyn siarad rhagor, dywedwch wrthyf beth sydd wedi dwyn y pwnc i'ch sylw a'ch calon ar y foment hon?"

"Mam, pan gyrhaeddais dŷ Mari y prydnawn hwn, cefais hi yn eistedd yn unig; yr oedd y tŷ mor lan a threfnus ag y dymunai un dyn iddo fod; yr oedd yr aderyn a ddygodd ei mab gartref yn tiwnio yn swynol, a'r crochan tê ar y tân yn canu, arffed y ffenestr yn llawn blodau amryliw, y gath yn cysgu, a phob peth mor lân a threfnus ag y gwelais i hwynt yn ystod y chwe' blynedd diweddaf. Wel, pan aethum i mewn dechreuodd trwy ddywedyd, 'Ah, Shuan, ai chwi sydd yna? Meddyliwn y buasech yn dyfod fel ydych yn arfer bob amser ar y pryd hwn o'r dydd, pan ellwch ddyfod i ymweled â mi. Yr ydych fel un o'm bendithion beunyddiol, am y rhai wyf yn teimlo yn wir ddiolchgar i Dduw, oblegyd pan y mae Efe yn danfon gofidiau a threialon, yna y mae yn rhaid i mi fyned ato Ef, am na all neb arall fy helpu; ond yr wyf yn ofni bob amser rhag annghofio talu digon o ddiolch iddo am y trugareddau mae yn rhoddi i mi yn feunyddiol.' Gwyddwn y carech chwi glywed hyn, mam, ac yr wyf wedi bod yn meddwl ar y ffordd adref os gallwn ddysgu fy hun ac Alice (pan y mae hi mewn gofid) i wneyd fel y gwna hen Fari bob amser; oblegyd, yn wir, yn wir, mam, edrychai mor ddedwydd, ac y mae mewn tymher dda bob amser."

"Ymddengys gan hyny," meddai Mrs. Morgan, "fod hen Fari, yn dwyn i ymarferiad trwyadl yr hyn nad oes neb na dim yn ei ddysgu iddi ond ei chalon ddiolchgar ei hun i'w wneuthur, ac ni allwn ni ddim llai nag edmygu y rhinwedd sydd yn achosi ynddi hi feddwl boddlon, yspryd dedwydd ac ymddangosiad siriol."

"Ie, mam, ond os ydyw hi, yr hen wraig dlawd, yn gwneuthur felly, y fath drueni na fuasai eraill, y rhai sydd ganddynt, fel nyni, bob peth a ewyllysiant, yn gwneyd yr un peth. Yr wyf yn meddwl eich bod chwi yn cofio diolch i Dduw bob amser am ein bendithion beunyddiol; mawr y carwn pe gallwn inau wneyd yr un peth; dysgwch fi i wneyd felly," ac edrychodd Shuan yn wyneb ei mam yn bryderus iawn.

"Mor ddiolchgar wyf yn teimlo wrth weled yr awydd yma ynoch chwi fy mhlentyn. Y mae calon ffyddlon, siriol a diolchgar yn sicr o

fod yn gymmeradwy gan Dduw. Dywedaf wrthych pa fodd y daethum i yn awyddus i feithrin, ac i gyflwyno y diolchgarwch yma am ein bendithion beunyddiol. Pan oeddwn o gylch pedair ar ddeg oed, aeth fy nhad, yr hwn a garwn i'r graddau pellaf, yn glaf, a bu y clefyd hwnw, fel yr ydych yn gwybod yn awr, yn angau iddo o gylch dwy flynedd wedi hyny; ond yn fynych iawn, pan yn weddol ddiboen, siaradai yn wresog am y bendithion oedd wedi eu mwynhau, ac am y pwys mawr a ddylid osod ar ein cyssuron beunyddiol, a pha fodd y dylem fawrygu a chanmol Duw am ei fendithion adnewyddol dyddiol, y rhai sydd yn cael eu diystyru yn fynych iawn, hyd oni fyddo rhyw anffawd yn dygwydd i ni, neu pan y byddo câr neu gyfaill yn cael ei gymmeryd ymaith; yna yr ydym yn rhy barod i ofidio ac annghofio pob peth arall. A dywedai, 'Pan y mae rhyw fendithion anarferol yn dyfod yn eiddo i ni,—pan mae unrhyw beth fyddom wedi gosod ein calonau arno yn cael ei roddi i ni; yna y mae dynion yn diolch i Dduw am ei fod fel pe byddai yn ateb ei ceisiadau neillduol hwy, neu fel pe byddai y Creawdwr yn gweithredu mewn modd goruwchnaturiol; ond y mae Ef yn tywallt ei roddion a'i fendithion arnom ni bob awr a phob munyd, a pheth sicr yw na ddylai ein cydnabyddiaeth ddiolchgar am y cyfryw fod yn llai gwresog.' Weithiau dywedai, pan yn gorwedd ar wely cystudd, fel yr wyf fi yn bresenol, 'Teimlaf ei bod yn fraint fendigedig i fwrw fy maich ar yr Arglwydd, gan fod yn gwbl argyhoeddedig y bydd iddo fy nghlywed a'm gwrando;' a phan yn galw i'm cof pa gymmaint o weithiau y mae wedi fy nghynnorthwyo a'm bendithio; a phan oeddwn i yn galaru a gofidio wrth feddwl am ei golli, dywedai, 'Gweddiwch ar Dduw, ac Efe a'ch cynnal ac a'ch amddiffyna; bendithiwch Ef yn feunyddiol am ei rodd fawr, sef Efengyl Iesu Grist ein Harglwydd.'"

"Ah! mam, mor hapus oeddych yn rhwym o fod yn teimlo wrth feddwl fod genych dad mor dda a duwiol."

"Ie, fy anwyl, yr wyf yn sicr fy mod yn ddedwydd iawn yn wir, ac yr wyf yn meddwl, Shuan, os myfyriwch chwithau ar hynyna, y gwelwch pa fodd ydym, pan fyddo y galon mewn cyflwr diolchgar am ein cyssuron a'n bendithion beunyddiol, yn naturiol yn cael ein tueddu pan mewn adfyd a galar i ddweyd,—'At y Bod mawr a chariadlawn hwnw sydd wedi rhoddi i mi gynnifer o drugareddau, a'r hwn sydd wedi gweled yn gymhwys i'm cystuddio yn bresenol, rhaid i mi fyned i arllwys fy nheimladau drylliog a'm tristwch, ac Efe a'm cynnorthwya i ddal i fyny yn ngwyneb y cyfryw.' Y mae ein Tad cariadlawn yn perffeithio ein natur, ac yn ein tynu ni ato ei hun â rheffynau o gariad, ac er nad ydym ni, ar lawer o brydiau, yn gweled sut y mae pob peth yn cydweithio er daioni; etto, ni allwn lai na chael ein hargyhoeddi, yn y pen draw, mai da yw i ni i ymostwng i'w drefniadau, byw yn ol ei ewyllys, a chyflwyno ein diolchgarwch iddo am ein bendithion beunyddiol, ac ymostwng yn dawel fel y gwnaeth fy nhad, dan ei alluog law Ef mewn iechyd ac afiechyd, mewn llwyddiant ac aflwyddiant, pan yn llon yn gystal a phan mewn tristwch. A ydych chwi yn deall ac yn teimlo yr hyn wyf yn dweyd, Shuan?"

"Oh! ydwyf, mam, ac yr wyf yn credu fod hen Fari yn feddianol ar yr yspryd hwnw a ddymunech i mi wrteithio. Ond pa fodd y gallaf ei sicrhau; pa fodd y gallaf ddyfod i deimlo fel y mae hen Fari yn teimlo, ac y teimlai nhadcu?"

"Fy mhlentyn," ebe Mrs. Morgan, mewn modd difrifol iawn, oblegyd yr oedd ei chalon ar dori gan lawenydd, "fy mhlentyn, trwy fod yn daer mewn gweddi, a bod yn wyliadwrus ar eich geiriau a'ch camrau. Meddyliwch bob dydd yn ddifrifol am bob bendith ydych yn ei derbyn. Nid yn unig trwy lawer iawn o eiriau mai diolch i Dduw, ond hefyd trwy gofio os yw y Bod daionus yma, eich Tad nefol, yn rhoddi cymmaint i chwi, a'i fod wedi hau hadau da a nefol yn eich calon, hyn sydd sicr, fod galwad arnoch i ofalu am y cyfryw, ac os gwnewch felly, y maent yn sicr o ddwyn ffrwythau da, sef creu nefoedd yn eich mynwes chwi eich hunan, ac yna byddwch yn dra thebyg o greu nefoedd o fyfyrdodau da yn mynwesau eich perthynasau a'ch cymmydogion, a bydd i'r Tad mawr o'r nefoedd i gael ei ogoneddu."

Ni annghofiodd Shuan byth yr ymddyddan difrifol a sobr a gymmerodd le rhyngddi hi a'i mam ar brydnawn teg yn yr haf, ac ni chafodd y wers a ddysgodd ei hannghofio, a gobeithiwn y bydd i'r rhai bychain ddichon ddarllen hyn o linellau i ddysgu yr un wers a gweithredu yn ei hol, yna byddant yn fendith iddynt hwy eu hunain, ac i bawb fyddo yn dal cyssylltiad â hwynt.

L.

CERDDORIAETH.

TONAU YN Y CYSSEGR.

Dylai fod genym fwy o amrywiaeth o donau. Ychydig iawn ydyw nifer y tonau sydd genym ar y gwahanol fesurau; dichon fod hyn i raddau helaeth i'w briodoli i'r nifer luosog sydd genym o fesurau yn arferedig. Ni byddai yn un anfantais pe y cleddid hanner y mesurau cyn codiad haul. Mae y fath nifer fawr o fesurau yn peri i flaenor y gân fod yn y benbleth fwyaf ar rai adegau, heb wybod pa le i droi, ac yn peri hefyd fod y nerth yn cael ei wasgaru yn ormodol. Clywir yr un tônau yn cael eu canu yn barhaus yn mhob cwrdd, a hyny er ys deg neu bymtheg mlynedd, a'r un dôn ddwywaith weithiau yn yr un cwrdd. Pa mor ragorol bynag ydyw y cyfryw dônau, oddiwrth hir a mynych arferiad o honynt mai y glust yn cynnefino â'r seiniau, y canlyniad yw, methir a chyffroi y teimladau. Dylai tônau y cyssegr amcanu at wneyd y galon a'r teimladau yn oblygedig, a'u dwyn i gywair addas i gyflwyno mawl i Dduw. Dylai hyn fod yn brif nod i gyrchu ato yn alawon y cyssegr. Tueddir ni i ddyfynu y cynghor

hwnw o eiddo y Parch. John Wesley i'w gynnulleidfa i ganu. "Bydded genych olwg ar Dduw yn mhob gair a ganwch; ymdrechwch ar ei foddhau Ef yn fwy na chwi eich hun na neb arall. Er mwyn i wneuthur hyn, sylwch yn fanwl ar feddwl yr hyn yr ydych yn ei ganu; ac edrychwch rhag i'ch calon fod ei [illegible] gyda'r swn, ond yn cael ei chario i Dduw yn wastadol; felly bydd eich canu y cyfryw ag y gwna yr Arglwydd ei gymmeradwyo yma, a'i wobrwyo pan y daw ar gymylau y nef." "Cenwch fawl yn ddeallus," ebe Dafydd. Nid oedd neb yn addasach i arwain a chynghori ar y mater na "pher ganiedydd Israel;" yr oedd ef yn gerddor o'r fath. Medrai ganu pan yn [illegible], [illegible]. Pan fuasai ysbryd drwg Saul, yr unig ffordd i gael llonydd ganddo oedd cael Dafydd i ganu telyn o'i flaen. Mae y caniedydd hwn yn Salm xlvii. 6, 7, yn dywedyd, "Cenwch fawl i Dduw, cenwch; cenwch fawl i'n Brenin, cenwch. Canys Brenin yr holl ddaear yw Duw: cenwch fawl yn ddeallus." Gellir casglu fod y pwnc hwn wedi cael sylw [illegible] Dafydd.

Mae rhai dynion yn deall peroriaeth mor dda, fel mae y *discord* lleiaf yn boen iddynt. Nid oes neb yn deall canu cystal a'r hwn a greodd y tafod, a luniodd y glust, ac a wnaeth delyn natur. **Wrth** wrando yr ydym yn gwylio am Dduw, ond wrth ganu yr ydym **yn** cyfeirio i Dduw. Dylem gan hyny fod yn ofalus iawn pa **fodd y** byddwn yn canu. Mor aml y byddwn yn dyrchafu seiniau [illegible], [illegible], ac afiach, yn yr hyn a ganwn genym yn fawl i Dduw! Os ydym [illegible] felly yn [illegible] [illegible], beth a ddywedwn ni am yr hwn a luniodd y glust? [illegible] y glust i seiniau hyfryd a dymunol, a dwyn yr argraff i mewn i galon ac enaid dyn. Gan hyny, dylai pob [illegible] yn yr addoliad fod a'i thuedd i greu a meithrin argraffiadau [illegible] yn y fynwes. Dylai y canu fod yn [illegible], y fath ag y [illegible] yr holl gynnulleidfa i ymuno i'w canu yn yr addoliad, a [illegible] eu teimladau [illegible] allan [illegible] mewn moliant i Dduw. "Canu y galon" yw perffeithrwydd, ond dylid cadw mewn cof ei fod yn [illegible] wrth y glust, yn gystal ag i [illegible] y galon,—ei fod yn [illegible] i greu ac i [illegible] teimlad [illegible]. Y mae [illegible] wedi, ac yn parhau i [illegible], pa bryd bynag y gwneir [illegible]. Fel rheol, y mae [illegible] yn ein [illegible]. Mae y cyfryw yn [illegible] y galon a'r teimladau [illegible] i Dduw. Er [illegible] i ganu rhai [illegible] i ddyn [illegible]. Y mae yn ddigon i beri i ddyn [illegible] ei enaid wrth wrando y fath [illegible], a thori ei grimogau [illegible]! Ein credinniaeth [illegible] yw, y dylai [illegible] fod yn [illegible], naturiol, a mawreddog; [illegible] a'r [illegible] a gymmeradwyir gan Dduw. Y mae [illegible] a gwelliant mawr

i'w ganfod yn ein caniadaeth eglwysig, ond nid "da" lle gellir "gwell." Y mae etto dir lawer i'w feddianu.

"Ha wŷr bach, mor hir y bu,—y gynnar
Hen genedl yn Nghymru,
Mewn tew-drwch o'i heglwysi hi
Yn cynnal gwaeled canu!

Ond canu gwell geir bellach,—gobeithir
Gwiw bethau rhagorach;
Cymry 'nawr, o fawr i fach
A ganant yn amgenach."

J. W.

CYFLWYNIAD TYSTEB I'R PROFFESWR EVANS.

Dydd Mercher, Gorphenaf 7fed, cyfarfu nifer o gyfeillion yn nhŷ y Proffeswr Evans, i'w anrhegu â phwrs o aur, yn nghyd a thlws prydferth iawn (yn werth pymtheg gini), gyda'r arysgrifen, "Cyflwynedig i Proffeswr Evans, gan ei gyfeillion Undodaidd ac ereill, fel arwydd o'u parch a'u teimlad da tuag ato."

Cymmerwyd y gadair gan Mr. D. Lewis, diweddar faer y dref, yr hwn a ddywedodd, eu bod wedi cyfarfod â'u gilydd i ddadgan yn enw y tanysgrifwyr ac ereill, eu gofid fod cyssylltiad Proffeswr Evans â thref Caerfyrddin ar derfynu, ac hefyd i gyflwyno iddo dysteb ag sydd yn ddangoseg o'u parch ato ef ei hunan a'i deulu, a'u diolchgarwch am ei wasanaeth mewn llawer pwnc cyhoeddus cyssylltiedig â llwyddiant moesol a meddyliol y dref, oblegyd yr oedd bob amser yn barod i gymmeryd y blaen gyda pethau o'r fath.

Galwodd y cadeirydd ar y Parch. William Thomas, M.A., Llandyssul, i wneyd cyflwyniad ffurfiol o'r dysteb i Proffeswr Evans, ar ran y tanysgrifwyr. Dywedodd Mr. Thomas, ei fod ef yn un o blith llawer a deimlent yn chwith fod cyssylltiad Proffeswr Evans â'r Coleg Presbyteraidd wedi terfynu yn ddiweddar. Nid dyma'r achlysur cymhwys i fyned i mewn i amgylchiadau ei ymddiswyddiad. Nid oedd ef (Mr. Thomas) yn dymuno dweyd dim i glwyfo teimladau cyfeillion presenol neu absenol: ond teimlai ddweyd hyn, a bod yn sicr o gydymdeimlad calonog oddiwrth bawb oddiamgylch, fod gwasanaeth Proffeswr Evans i'r Coleg wedi bod o nodwedd uchel, a'i fod bob amser wedi amcanu at feithrin yn y myfyrwyr arferion diwyd, craffus, a myfyrgar, a thra yn gofyn yr ysbryd priodol o ufudd-dod yn y rhai oeddynt o dan ei awdurdod, etto, ni annghofiai byth i dymheru ei ddysgyblaeth ag ystyriaeth garedig o'u angenion a'u anhawsderau. Os oedd nwydau digofus wedi cael eu cynhyrfu, os oedd sarhad bwriadol wedi ei gynnyg, os oedd gau dystiolaeth wedi ei dwyn, nid ei amcan ef oedd penderfynu; ond os mai felly yr oedd, fel y credai

rhai, byddai y fath ymddygiad isel ac anniolchgar yn sicr o syrthio yn y diwedd, nid ar y diniwed, ond ar yr euog. Tebyg y dangosa amser yn ei dreigliad dystaw, lle yr oedd gwir achos yr annghydfod diweddar yn gorwedd, ac y dyga y gwirionedd, er yn ddiweddar, i'r golwg. Gadawai y pethau yma yn awr, a chan droi oddiwrth y gorphenol at y dyfodol, cymmerai y cyfleusdra yn enw cyfeillion presenol ac absenol, i gyflwyno i Proffeswr Evans yr addurn prydferth hwn, gyda'r dymuniad y bydd iddo am lawer blwyddyn guro oriau a munydau bywyd a fydd etto yn ddefnyddiol a dedwydd yn rhyw gylch neu gilydd. I fywyd myfyrgar fel ag y mae y Proffeswr wedi bod erioed yn arwain, nis gellir dysgwyl llawer o gyfnewidiadau pwysig, etto mae'n bossibl iddo er hyny yn ei lawenydd tawel a phur, gael ei lenwi á'r dedwyddwch mwyaf gwirioneddol; a dyna ddymuniad a gweddi pawb o honynt ar ran eu cyfaill. A phan na bydd oriau na munydau y ddaear mwyach o un cyfrif i'r hwn ydym ni yn awr yn ewyllysio anrhydeddu, bydded i'r rhodd yma ddisgyn i lawr yn drysor cyssegredig i'w blant ac i blant eu plant, gan ddwyn ar ei wyneb gonest gofnodiad o deilyngdod wedi ei gydnabod a chyfeillgarwch nad yw wedi ei annghofio.

Yn nesaf, cyflwynodd Miss Evans a Miss White y pwrs yn cynnwys deg gini ar hugain i'r Proffeswr. Mewn atebiad, dywedodd Proffeswr Evans ei fod yn bleser mawr ganddo, i dderbyn y rhoddion, nid yn unig am eu gwerth, yr hyn oedd yn llawer, ond fwy fel arwydd o barch a theimlad da ei gyfeillion. Ni ddysgwyliai y fath garedigrwydd oddiwrthynt, ac ni ystyriai ei fod yn feddianol ar unrhyw deilyngdod neillduol, heblaw ei fod wedi ymdrechu i wneyd ei ddyledswydd, os oedd unrhyw deilyngdod o gwbl yn hyny. Yr oedd ef wedi gobeithio terfynu ei ddyddiau yn Nghaerfyrddin, ond nid felly yr oedd i fod. Mewn perthynas i'r deuddeg mlynedd ag oedd ef wedi dreulio gyda hwy, a'i gyssylltiad â'r Coleg, byddai yn edrych yn ol arnynt gyda llawer iawn o bleser, fel mewn un ystyr, y rhan fwyaf ddefnyddiol o'i fywyd, ac yr oedd yn teimlo yn falch y byddai iddo fyw yn adgof diolchgar a pharch diffuant nid ychydig o'r myfyrwyr oeddynt wedi pasio trwy'r Coleg yn ei amser ef, a rhai a fyddant i fedi o ffrwyth ei lafur pan na byddai ef mwy. Mae'n rhaid iddo ddweyd fod yn ddrwg ganddo i adael y Coleg yn nghanol ei waith a'i ddefnyddioldeb, ond i'r pwnc hwnw nid oedd yn briodol iddo i fyned i mewn ar yr achlysur presenol. Yr oedd yn gwerthfawrogi yr anrhegion, yn fwy, oblegyd mai nid ei gyfeillion Undodaidd yn unig oedd y tanysgrifwyr, ond ereill hefyd perthynol i'r gwahanol enwadau, a rhai heb fod yn perthyn i un enwad o gwbl. Yr oedd yn teimlo yn falch o hyn, oblegyd ei fod yn dangos fod dallbleidiaeth grefyddol yn nhref Caerfyrddin yn marw allan yn raddol, a bod y trigolion yn parchu hyd y nod Undodwr, os byddai yn gwneyd ei ddyledswydd. Yr oedd yn ddigon ysprydoledig i ragweled yr amser, pan y byddai Eglwys Crist i gael ei sefydlu, nid ar unffurfiaeth cred, yr hyn sydd mor anmhossibl ag yw yn annymunol, ond ar egwyddorion eang Cristionogaeth, cariad y Tad cyffredinol, a dymun-

iad i hyrwyddo hawddfyd meddyliol, moesol, a chrefyddol yr hil ddynol. Yr oedd yn ddrwg ganddo hefyd fod ei gyssylltiad ag arolygwyr y Bwrdd Ysgol ar derfynu, gyda'r rhai y cafodd y pleser o gydweithio yn unfrydol am amser hir. Ni ddywedai ddim yn rhagor, ond o waelod ei galon dymuno pob llwyddiant i hen dref barchus Caerfyrddin gyda'i holl sefydliadau o bob natur.

Ar ol araeth ardderchog oddiwrth Mr. Edwards yr Emporium, yn yr hon y sylwai fod cymmeriad Proffeswr Evans mor loyw a'r aur a roddwyd yn anrheg iddo, a phleidlais o ddiolchgarwch i Mr. Daniel Jones, ysgrifenydd a thrysorydd yr anrheg, ac hefyd i'r cadeirydd parchus, terfynwyd y cyfarfod.

O'R "WELSHMAN."

CYNGHOR TAD I'W FAB.

Y MAE yr amser yn cyflym agoshau, fy anwyl fab, pan y bydd yn rhaid i mi fyned dros y ffordd hono nad oes neb yn dychwelyd ar hyd-ddi. Ni allaf dy gymmeryd di gyda mi; y mae yn rhaid i mi dy adael mewn byd nad yw yn orlawn o weithredoedd da, a lle nad oes lluosawgrwydd o gynghorion da yn cael eu rhoddi i'r dibrofiad. Nid oes yr un dyn yn cael ei eni yn ddoeth. Y mae amser a phrofiad yn ein dysgu i wahanu yr ûs oddiwrth y gwenith. Yr wyf wedi gweled rhagor o'r byd na thydi, a fy mhrofiad yw, nid aur yw pob peth sydd yn dysgleirio. Yr wyf wedi gweled llawer seren yn syrthio o'r nefoedd, a llawer ffon ar yr hon y pwysai llawer o blant dynion yn tori. O ganlyniad rhoddaf i ti y cynghor yma: na lyn yn ormodol wrth unrhyw beth diflanol a darfodedig. Nid yw y gwirionedd yn dyfod atom ni, ond angenrhaid yw i ni chwilio am dano ef. Sylwa yn ofalus iawn ar y pethau a weli; a chyda golwg ar bethau anweledig a thragwyddol, ymorphwys ar Dduw. Y mae yn aros o'n mewn farnwr nad yw un amser yn ein twyllo, a llais a chymmeradwyaeth yr hwn sydd fwy o werth i ni na holl ganmoliaeth a chymmeradwyaeth y byd i gyd. Penderfyna omedd cyflawni unrhyw beth sydd yn cael ei wahardd ganddo. Pan ar ymgymmeryd ag unrhyw orchwyl, cais ddoethineb a phwyll yn gyntaf. Araf ac isel y mae y barnwr uchod yn siarad yn gyntaf, rhywbeth tebyg i blentyn bychan yn *lispian;* ond os perchi ei ddidwylledd a'i ddiniweidrwydd y mae yn llefaru yn uwch ac uwch, a mwy awdurdodol ac eglur o hyd. Na ddirmyga un grefydd; gwaith hawdd ddigon yw dirmygu, ond llawer gwell yw deall. Cynnal y gwirionedd pan elli, a bydd barod i gael dy gashau er ei fwyn; ond gwybydd mai nid dy achos di yn unig yw y gwirionedd, a gochel rhag iddynt gael eu cymmysgu. Gwna ddaioni er dy foddlonrwydd dy hun, ac na ofala am yr hyn a ganlyn. Na fydd yn achos i ddwyn cymmaint ag un blewyn gwyn ar ben neb;

fodd bynag, er mwyn yr iawn nid yw penllwydni i fod ar dy ffordd. Cynnorthwya a rhodda elusen yn ewyllysgar pan y gelli, ac na feddwl ddim am hyny yn ol llaw, ac os nad oes genyt ddim arall i'w roddi bydded dy ddwylaw yn barod i roddi phiolaid o ddwfr oer, ac na feddwl lai am danat dy hun oblegyd hyny. Paid a gwneyd yn wastad yr oll wyt yn wybod, ond gwybydd bob amser beth ydwyt yn ddweyd. Rho barch dyledus i'r hyn sydd wirioneddol dda, ac nid yn ymddangosiadol felly yn unig a dylyn ei ol. Y mae y dyn sydd ag ofn Duw yn ei enaid fel yr haul sydd yn dysgleirio ac yn rhoddi gwres er nad yw yn llefaru. Gwna yr hyn sydd deilwng o gymmeradwyaeth ac na ofyn chwaneg. Myfyria yn ddyddiol ar farwolaeth, ac ymofyn am wlad well gyda dewrder calonog; ac yn mhellach, nac a allan o'r byd heb brofi, trwy ryw weithred dda, dy barch a'th gariad at Awdwr Cristionogaeth.

A. A.

EIN CWRDD BLYNYDDOL.

Cynnaliwyd y Cwrdd uchod yn y Cwmbach, ar ddyddiau Mercher a Iau, y 23ain a'r 24ain o Fehefin. Yr oedd yr hin yn ffafriol iawn. Traddodwyd dwy bregeth effeithiol nos Fercher gan y Parchedigion Rees C. Jones, Llanbedr, a W. Rees, Rhydygwin. O gylch hanner awr wedi naw o'r gloch boreu dydd Iau, ymgyfarfyddodd y gweinidogion yn yr ysgoldy, ac wedi neillduo cadeirydd galwyd ar y Parch. Robert Spears i siarad ar "Pa fodd y mae yn bossibl i ni wneyd ein syniadau crefyddol yn fwy adnabyddus yn y manau poblogaidd hyny nad yw ein gweinidogion ddim wedi cael cyfle i ymweled a hwynt?" Yr oedd yn amlwg ddigon fod Mr. Spears yn teimlo y dyddordeb mwyaf yn y pwnc yma. Dylynwyd ef gan amryw o'r gweinidogion, ac y mae genym le i gredu i awgrymiadau gael eu tafiu allan a allant fod yn effeithiol er daioni yn y dyfodol. Amser a ddengys. Ychydig cyn 11eg o'r gloch, dechreuwyd yr addoliad yn y capel, yr hwn a arweiniwyd gan y Parch. David Evans, B.A., Maesymeillion, a phregethodd Mr. Spears yn Seisnig, a'r Parch. D. L. Evans, Caerfyrddin, yn Gymraeg. Testyn y blaenaf oedd "Y Ffydd Gyffredinol," a'r olaf "Eithr sancteiddiwch yr Arglwydd Dduw yn eich calonau, a byddwch barod bob amser i ateb i bob un a ofyno i chwi reswm am y gobaith sydd ynoch, gydag addfwynder ac ofn." Llefarwyd ar y pwnc—"Beth yw crefydd?"—gan Mr. D. Evans ac ereill. Gan na ddarfu i'r ysgrifenydd gymmeryd *notes* ar y pryd o'r hyn a lefarwyd, nid doeth fyddai iddo ddweyd rhagor nà bod y llefarwyr, er yn amrywio ychydig yn eu barn yn nghylch y pwnc, neu efallai yn eu dull o osod allan eu meddyliau, yn cyttuno i aunghyttuno. Llefarent oll mewn modd crefyddol. Wedi ciniaw, llanwyd y capel yn fuan iawn i wrando y Parchedigion John Davies, Alltyplaca, a Titus Lloyd, Nottais, yn traddodi

pregethau bywiog; a phregethodd y Parchedigion John Evans, Gellionen, a D. Evans, yn yr hwyr. Cawd gwrandawiad astud iawn, ac nid ydym yn cofio i ni glywed canu mwy swynol erioed. Yr oedd pobl yr Hen-dy-Cwrdd, Heolyfelin, a phobl y Cwmbach, wedi bod yn parotoi gyda'u gilydd am rai wythnosau cyn y cwrdd, a da iawn genym ddeall eu bod yn teimlo mor frawdol at eu gilydd. Nid yn unig y ddau gôr unedig yma oedd yn canu ychwaith, ond hefyd lawer, os nid y rhan luosocaf oedd yn gwneyd i fyny y cynnulleidfaoedd mawrion a ddaethant yn nghyd i'r gwahanol gyfarfodydd.

Dyma'r cwrdd cyntaf ydym ni yn gofio i gynnrychiolydd o'r *British and Foreign Unitarian Association*, Llundain, fod ynddo yn Nghymru gyda'r Cymry, a da genym i Mr. Spears gael ei foddloni yn fawr yn y cyrddau, er na ddeallodd ond ychydig o'r hyn a ddywedwyd, ac iddo yntau foddloni llawer iawn o'i wrandawyr.

Mae y Cwrdd Chwarterol nesaf i gael ei gynnal yn y Nottais, a'r un blynyddol yn Llanbedr. L.

[Dranoeth i'r cyrddau ymwelodd Mr. Spears ag amryw o'n capelau, megys y Capel Seisnig a'r Hen Dy Cwrdd yn Aberdar, a'r Hen Dy Cwrdd ar y Cefn, a chafodd ei foddloni yn fawr ynddynt. Yr oedd wedi gweled Capel Twyn yr Odin o'r blaen. Ar ei ffordd adref, bwriadai wneuthur ymchwiliad a oedd modd cychwyn achos yn Nghaerdydd.]

CYFFES FFYDD UNDODWR YN NGHYLCH DUW, IESU, IACHAWDWRIAETH, Y BEIBL, A'R BYWYD DYFODOL.

Wrth gynnyg y "Gyffes Ffydd" hon i'r byd, yr wyf yn gwybod fy mod yn gosod fy hun yn agored i'r cyhuddiad o wneyd yr hyn mae Undodiaid erioed wedi honi na ddylid ei wneyd. Bydd rhywun yn dweyd, "Yr ydych wedi bod trwy yr amser yn protestio yn erbyn Credoau, ond yr ydych yn awr yn ceisio gosod i fyny un o eiddo eich hun." Byddai y cyhuddiad, er hyny, yn un brysiog ac anheg. Mae Credo yn safon gaeth, sefydlog, ac haerdybiol; ond mae y Gyffes ydwyf fi yn ddymuno wneyd yn osodiad hyblyg, bywiol, a phersonol. Mae'n rhaid i Gredo sectol gynnwys rhanau sydd yn condemnio rhai anghrediniol, nid oes yn fy Nghyffes i yr un o'r cyfryw. Mae Credoau sectol ydynt yn safonau athrawiaeth, yn *dests* iachusrwydd y ffydd, ac yn bethau terfynol, wedi bod erioed yn felldith y byd Cristionogol; ond mae cred bersonol yn beth anocheladwy. Mae'n rhaid fod gan ddyn ei feddyliau ám y pynciau mawrion hyn; a'i feddyliau, pan yn ddigon dwfn, yw ei gred. Dim ond pan y mae e'n troi ei gred i fod yn safon sefydlog er mwyn *testo*, barnu, ac hyd y nod gondemnio ei gyd-ddynion, mae ei gred yn dyfod yn fagl ac yn faen tramgwydd. Yr wyf fi yn diolch i Dduw gan hyny am y ffydd sydd genyf; ac yr wyf yn diolch iddo fy mod wedi cael fy ngalluogi i'w chyfranu i fod yn ffynnonell llawenydd a chyssur i ereill; a'r dymuniad difrifol i wneuthur yn adnabyddus yn mhellach yr Efengyl wirioneddol, neu y newyddion da hyn sydd yn fy arwain i gyhoeddi y Gyffes hon. Ynddi yr wyf yn siarad yn unig drosof fy hun, ond yr wyf yn credu ei bod yn arddangosiad teg o syniadau Undodaidd.

DUW.

Yn gyntaf oll, yr wyf yn credu yn Nuw; neu yn hytrach, dymunwn ddweyd yn fwy gostyngedig a pharchus, yr wyf yn ei *geisio* Ef. Yr wyf ar bererindod drwy

yr hyn sydd yn ymddangos fel ymerodraeth Creawdwr gogoneddus, a Brenin cadarn; yr wyf yn edrych i fyny i'r nefoedd serenog, ac oddiamgylch ar y ddaear brydferth; yr wyf yn gwrando am dano yn fy enaid fy hunan; ac yn y diwedd, cymhellir fi i'w gyfaddef gyda meddwl llawn rhyfeddod, a chalon wedi ei chyffroi â chariad addoliadol. Yr ydwyf yn credu ynddo; yn wir o flaen pob cred arall, dyma'r sail ar yr hon yr ydwyf yn gorphwys:—dyma galon a gwraidd y cwbl; canolbwynt pob ffydd, sylfaen pob ymddiried, dyma anadl fy modolaeth feddyliol ac ysprydol. Ydwyf fi ddim yn gosod terfyn ar fy nghred. Yr wyf yn credu ynddo â'm holl feddwl, yr ydwyf yn ei barchu Ef â'm holl enaid, yr ydwyf yn ei addoli â'm holl galon; yr wyf yn dymuno ei wasanaethu â'm holl nerth. Dywedwch i mi sut i'w barchu yn fwy, ac yr wyf yn barod i wneyd yr hyn oll a ddywedwch. Dywedwch i mi pa fodd i'w garu yn fwy, a mi a'ch bendithiaf am hyny. Dywedwch i mi pa fodd i'w wasanaethu yn well, a mi a ymdrechaf i ufuddhau. Yr wyf yn credu ein bod ni gyd yn byw ynddo, ei fod Ef bob moment yn anadlu ynom anadl einioes, fod llewyrch y llygaid, cryfder y corff, goleuni y rheswm, bendith y bywyd dirgelaidd hwn, i gyd oddiwrtho Ef; fod llanw ein bodolaeth yn llifo o gefnfor mawr ei fodolaeth Ef, a phan mae'n treio, nid yw ond treio yn ol ato Ef.

Ond yn mhellach: yr wyf yn credu ynddo fel fy *Nhad*. Yr wyf yn myned tuhwnt i'r syniadau o allu a mawredd ydynt yn glynu wrth y meddwl athronyddol am yr anfeidrol Dduw, ac yr wyf yn llawenhau i adnabod fy Nuw fel fy Nhad hefyd. Yr wyf yn teimlo nad oes un desgrifiad o hono mor fendigedig a'r desgrifiad yr wyf yn gael yn y Beibl,—ei fod Ef yn ein caru ni gyda chariad Tad. Ydwyf fi ddim yn gwybod am un enw mor gyflawn o berffaith a'r enw ag y dysgai yr Iesu ni i'w alw wrtho—"Ein Tad yr hwn wyt yn y nefoedd." Yr wyf yn credu, gan hyny, yn Nuw fel Tad. Yr wyf yn gwneyd y syniad yna yn gonglfaen pob ffydd, yn sylfaen pob ymddiried, ac yn *dest* pob barn. Gadawer i bob peth arall fod yn anwir, ond bydded fod hwn yn dragwyddol wir. Fel ag y mae plentyn yn barnu yr oll a glywa am ei dad, wrth yr hyn y mae ef yn wybod am ei dad, yn hyderus nas gall rhyw chwedl ddrwg am dano fod yn wir, oblegyd ei fod yn gwybod mor anhebyg yw i'w dad da gartref, felly yr ydwyf finau yn barnu pob peth a glywaf am fy Nhad o'r nef; a phan mae dynion yn dysgu rhyw bethau am dano, yr wyf yn troi ymaith, yn glaf o galon, ac yn dweyd—nid ydyw hyna yn perthyn i fy Nhad i; allaf fi ddim credu ei fod yn wir. Ac o'r un meddwl am dano, yr wyf yn ffurfio fy ngobaith am yr amser i ddyfod. Fy hyder yn ei gariad yw sail fy ngobaith, ac mae y cyfryw obaith yn ernes o'r amser pryd y bydd y berthynas wedi ei pherffeithio. A ydych chwi yn gofyn beth ydwyf fi yn ymddiried ynddo? A ydych chwi yn gofyn sut ydwyf fi yn dysgwyl cael fy achub? Nid oes genyf ond un ateb;—gallaf ymddiried yn Nuw, fy Nhad, yr hwn a'm gwnaeth; a'r hwn sydd wedi rhoddi i ni ei Fab ei hun, yn addewid y deuwn ninau mewn gwirionedd, mewn ufudd-dod, yn feibion ac yn ferched i'r Duw hollalluog.

Yr wyf, gan hyny, yn credu yn Yspryd Glân Duw. Y meddwl cyntaf sydd genym am Dduw yw, fel rhyw Fod mawr, Anfeidrol, ac Anchwiliadwy, cadernid a mawredd yr hwn sydd yn rhy ddwfn i'n hamgyffrediad ni, ac yn rhy ofnadwy i ni ddynesu ato; ac mae yn anhebgorol angenrheidiol i ni i fyned yn mhellach nâ'r syniad yma am Dduw, a meddwl am dano fel Bod sydd yn bodoli nid yn unig er mwyn ei hunan, ond er ein mwyn ni, ac er mwyn pob peth mae Ef wedi wneyd,—yr hwn sydd yn anadlu yn feunyddiol i bob peth byw anadl einioes, yr hwn sydd yn cynnal nid yn unig trwy Air ei nerth, ond trwy bresenoldeb ei fywyd. Felly yr ydym yn dyfod i feddwl am dano fel *Yspryd* sydd yn anadlu ac yn byw. Oddiwrth hyn yr ydym yn myned yn ddyfnach fyth, at feddwl mwy bendigedig nâ'r oll. Yr ydym yn teimlo fod y byd nid yn unig yn llawn o fywyd a phrydferthwch Duw, ond ei fod yn mhob man yn dweyd am burdeb, am ddaioni, ac am santeiddrwydd. A phan yr ydym ni yn edrych i'n calonau ein hunain, ac yn teimlo, yn nghanol ein nwydau drwg a'n serch at bechod, fod bywyd yn anadlu o'n hamgylch ni sydd fyth yn ceisio ein dyrchafu ni uwchlaw pob drwg, a'n gwneyd fel Efe sydd yn holl santaidd, yr ydym wedi'n yn gweled, fod Duw gyda ni fel rhywbeth sydd yn fwy na'r Yspryd sydd yn ein galluogi ni i fodoli yn unig. Yr ydym yn gweled ein bod yn byw bywyd moesol ac ysprydol, yn gystal ag un naturiol, a bod Duw yn awdwr y ddau fywyd; ac yr ydym yn canfod ei fod nid yn unig yn Yspryd, sydd yn

rhoddi bywyd, ond yn *Yspryd Glân* sydd yn rhoddi bywyd *moesol* ac *ysprydol:* ei fod Ef oddi fewn i ni gystal ag oddi allan, ac mai "Ynddo Ef yr ydym ni yn byw, yn ymsymmud, ac yn bod." Yr wyf yn ei gyffesu, gan hyny, nid fel erthygl yn fy nuwinyddiaeth, ond fel argyhoeddiad llawn dyddanwch a llawenydd,—yr wyf yn credu yn yr Yspryd Glân.

I mi, ynte, mae Duw yn un ac un yn unig;—un fel Bywyd mewnol pob peth; un fel Creawdwr, Trefnwr, a Brenin cyffredinol; un fel gwrthddrych ein diolchgarwch a'n haddoliad; un fel gwrandawr ein gweddiau; un fel cyfarwyddwr ein bywydau yn awr, fel ag y bydd Efe yn un Arglwydd pob bywyd am byth,—y Tad cyffredinol, Brenin, a Chyfaill dyn.

IESU.

Yr wyf yn credu yn Iesu, Mab Duw, ein brawd henaf; nid unig Fab Duw, ond y Mab mwyaf gwirioneddol a phur a wyddom ni am dano, yr hwn sydd yn amlygu oreu y ffaith oruchel ein bod ni yn feibion ac yn ferched i Dduw; y Mab hefyd sydd yn dadguddio oreu i ni feddwl a chalon y Tad. Yr wyf gan hyny yn credu ynddo fel dysgleirdeb gogoniant y Tad, ac o ganlyniad nid y Tad ei hunan; gwir ddelw ei berson, ac o ganlyniad nid y person; amlygiad o Dduw ac nid Duw ei hunan. Yr wyf yn credu ynddo nid fel Crist marw, ond fel Crist byw, cyssylltiad yr hwn â'r credadyn, nid yw yn gyssylltiad hanesyddol yn unig. Yr wyf yn credu ei fod yn ysprydol gyda ni yn awr, yr yspryd sydd yn ein dal i fyny ac yn ein dyrchafu, a dylanwad yr hwn sydd yn effeithiol i'n hatal ni yn ein hunanoldeb, i'n dysgu yn ein hanwybodaeth, a'n dwyn yn agos at Dduw. Yr wyf yn credu yn ei fywyd fel y cynllun perffaith sydd o'n blaen ni, ac yn ei ufudd-dod perffaith hyd angeu, fel ein esampl feunyddiol. Yr wyf yn credu y gallwn ninau ddysgu caru a gorphwys ar Dduw fel ag y gwnaeth ef, y gall ei santeiddrwydd ef trwy ymdrech ddifrifol ddyfod yn eiddo i ninau, y gallwn ni godi i fyny i fod yn feibion gwirioneddol i Dduw gydag ef, ac y gallwn ni wrth gael ein harwain ganddo ef gymmeryd gafael ar y bywyd tragwyddol.

Yr wyf yn credu, ei fod mewn ystyr wirioneddol iawn yn *Air Duw*; trwy yr hwn yr ydym yn cael gwybodaeth o feddwl ac ewyllys Duw, a thrwy yr hwn y gallwn gael allan y ffordd at gariad Duw, yr hyn a fydd yn holl ddigonol i'n hadferu a'n hachub ni. Yr wyf yn credu ynddo fel "Cyfryngwr rhwng Duw a dyn," yr hwn fel y cyfryw sydd bob amser yn cymmodi yspryd cyndyn dyn â Duw, yn dwyn adref yr afradlon fel y gallo ei adferu i burdeb a heddwch, trwy ei adferu i hyder ac ymddiried yn Nuw. Yr wyf yn credu ynddo fel y bod, ag y mae ei fywyd a'i addysgiadau, y pura'f, y mwyaf dwyfol, a'r mwyaf gwirioneddol; marwolaeth yr hwn a gyssegrodd dystiolaeth ac a gyflawnodd ymlyniad ei fywyd, ac adgyfodiad ac esgyniad yspryd yr hwn i'r nef, sydd broffwydoliaeth ac addewid o'r hyn sydd yn ein haros ninau yn amser Duw.

Yr wyf yn credu ynddo gan hyny fel y ffordd at y Tad, ac nid fel aberth, yr hwn trwy ei waed, ei boenau, a'i farwolaeth, a foddlonodd y Tad. Yr wyf yn credu mai y cymmod a ddygodd oddiamgylch oedd cymmod, nid meddwl digllawn Duw, ond calon wrthnysig dyn. Oedd dim angen ei gymmodi ar Dduw—yr oedd Ef yn ein caru ni yn barod. Ar galon wrthryfelgar, bechadurus dyn yr oedd eisiau cael ei darostwng a'i chyfnewid. Ac yn y modd yna mae yr Iesu yn ein cymmodi ni â Duw; fel yr oedd yr Apostol yn dweyd,—"Duw yn Nghrist *yn cymmodi y byd ag Ef ei hun.*" Yr wyf fi yn credu fod y syniad o Iawn sydd yn gosod Crist allan fel yn dyoddef i foddloni a thawelu Duw, megys tywyllwch yn ngwyneb y goleuni, pan y cyferbynir ef â'r gwirionedd fel ag yr ymddengys yn yr Efengylau—fod Duw yn ein caru ni, a bod yr Iesu wedi dyfod i greu cariad ynom ni at Dduw; i dori lawr ein gwrthryfel, nid i dawelu digofaint Duw; i ladd ein gelyniaeth ni, nid i foddloni cyfiawnder Duw; ac i'n harwain ni oll adref at Dduw. Yn y ffydd ddynol brydferth yna, mor deilwng o Dduw, mor addas i ddyn, yr wyf yn cael yr hyn oll sydd angen arnaf.

IACHAWDWRIAETH.

Yr wyf yn credu mewn Iachawdwriaeth fel gwaredigaeth oddiwrth anwybodaeth, coelgrefydd, diffyg ymddiried yn Nuw, a phechod. Yr wyf yn credu ynddi, gan

hyny, fel ffaith sydd yn cael ei dwyn oddiamgylch, neu i gael ei dwyn oddiamgylch yn mhob enaid dynol, gan y gall pawb droi oddiwrth ddrwg a gwneyd daioni. Yr wyf yn credu fod Iachawdwriaeth yn dyfod trwy adael pechod a throi at Dduw; ydwyf fi ddim yn credu ei bod hi wedi cael ei phrynu drosom ni oddiwrth Dduw. Ydwyf fi ddim yn credu fod yr Iesu wedi dyfod i dawelu digofaint Duw â phris, i foddloni cyfiawnder Duw ag aberth, oblegyd dywedodd mai felly y carodd Duw y byd, fel y rhoddodd ei fab. Ac hyd y nod, pe buasai yn angenrheidiol i'n hiachawdwriaeth i gael ei phrynu oddiwrth Dduw, ydwyf fi ddim yn meddwl mor isel am ei gyfiawnder, ei santeiddrwydd, a'i gariad, fel ag i gredu y gallasai dyoddefiadau a marwolaeth aberth ddiniwed fod yn bris ag y gallai Ef dderbyn. Yr *oedd* yr Iesu yn aberth i Dduw, ond yr oedd yr hyn mae'r Apostol yn alw yn briodol iawn, yn "Aberth o arogl peraidd;" ac nid ydwyf fi yn meddwl y gallesid desgrifio yn y fath fodd ei boenau, ei drueni, ei waed, a'i angeu. Mae y ffordd yr oedd ef yn aberth yn amlwg ddigon oddiwrth y desgrifiad uchod, ac oddiwrth y cyd-destynau, lle y gwelwn iddo roddi ei hun i fyny i Dduw mewn aberth o yspryd pur ac ufudd, o gariad a daioni santaidd, ac o ffyddlondeb a'i arweiniodd i groesawi y groes yn hytrach nag ymollwng rhag y gwaith a roddwyd iddo i'w wneyd. Dyma aberth Crist, wedi ei chynnyg nid i dawelu Duw, nid i'n gwaredu oddiwrth gospau ydym yn haeddu, ond er ein tynu yn mlaen ar hyd yr un ffordd o ddyledswydd a santeiddrwydd ag y rhodiodd ef arni. Pryd bynag, gan hyny, mae calon wrthnysig dyn yn cael ei henill at Dduw, mae iachawdwriaeth yn cael ei dwyn oddiamgylch yno, yn nychweliad y pechadur yn ol at ei Arglwydd a'i Frenin. Felly yr ydwyf fi yn edrych ar Iachawdwriaeth, nid fel canlyniad rhyw drafodaeth rhwng Duw a'r Iesu, ond fel ffaith, i gael ei chyflawni yn mhob enaid crediniol, gan fod iachawdwriaeth trwy yr Iesu yn gynnwysedig yn nerbyniad gallu ac yspryd oddiwrtho ef i dori lawr ein pechod, i daflu allan ein gelyniaeth, a'n dwyn yn ol gyda thristwch duwiol at Dduw.

Yr wyf yn credu, gan hyny, fod tyner dosturiaethau Duw dros ei holl weithredoedd, y gall pawb a fynont yn y bywyd hwn ddyfod ato Ef, gyda'r sicrwydd y cânt Ef yn fwy parod i amlygu ei drugaredd nag ydynt hwy i ofyn iddo am dano, fod Duw yn tosturio wrthym ni, fel y tosturia tad wrth ei blant; y gall Efe faddeu i ni fel y gall tad da wneyd, a bod ei gariad rhydd a'i drugaredd nas gellir ei brynu yn holl ddigonol i'n hangenion ni. O ganlyniad, nid yw Iachawdwriaeth yn rhywbeth sydd yn ymddibynu ar eglwys, neu gredo, neu offeiriad; nid yw yn ymddibynu ar y lle y byddom yn addoli, neu ar yr hyn a gredwn, neu ar y ffordd y byddom wedi cael ein bedyddio; mae yn beth dyfnach nâ hyna,—yn beth perthynol i'r galon, i'r gydwybod, a'r enaid; ac os oes rhywun yn cashau pechod yn wirioneddol, ac yn ymdrechu boddloni Duw, mae ef ar y ffordd i'r nefoedd. Fe ddichon i offeiriaid ddweyd wrtho ei fod yn golledig nes iddo dderbyn eu sacramentau neillduol hwy, neu gredu eu credoau neillduol, ond bydd y dyn ystyriol yn rhy ddoeth i'w credu; bydd yn gwybod fod dyn yn gymmeradwy gerbron Duw, nid ar gyfrif yr eglwys mae ef yn perthyn iddi, neu'r gredo mae ef yn ddal, ond ar gyfrif yr hyn mae ef yn garu, yr hyn mae ef yn geisio, a'r hyn yw mewn gwirionedd.

Y BEIBL.

Yr wyf yn credu fod y Beibl yn cynnwys cofnodiad o feddyliau dynion yn yr oesoedd sydd wedi myned heibio, mewn perthynas i oruchwyliaethau Duw at ddyn, ac ymgais dyn am Dduw. Yr wyf yn credu fod Duw erioed yn dadguddio ei hun i ddynion, trwy gyfrwng naturiol y meddwl dynol, trwy sylw a phrofiad dynol; nad yw erioed, gan hyny, wedi gadael y byd yma heb broffwyd neu offeiriad, bardd neu weledydd wedi eu dysgu yn fwy neu lai dwyfol, ond fod pob enaid ysprydoledig yn cael ei gyfyngu yn ei weledigaeth a'i ddadguddiad gan anmherffeithderau dynol. Felly, yr wyf yn credu, fod y gwahanol ysgrifenwyr a fuont yn ysgrifenu neu yn casglu llyfrau y Beibl yn cyfranogi o gyfeiliornadau cyffredin eu hamser. Mae'n amlwg fod llawer o bethau yn y Beibl nad yw yn bossibl fod Duw wedi ysprydoli dynion i'w hysgrifenu,—materion gwyddorol, er engraifft, ag ydym ni wedi myned yn mhell tuhwnt iddynt, heb ddweyd dim am wrthddywediadau, a llawer o ddiffygion moesol pwysig. Mae llyfrau Joshua a'r Barnwyr yn llawn o fanylion rhyfel barbaraidd a lladdfeydd ofnadwy; a dywedir fod y pethau mwyaf dychrynllyd wedi eu

gwneyd o dan gyfarwyddyd Jehofah. Dywedir wrthym fod Duw wedi caledu calon Pharaoh; ond allwn ni ddim credu peth mor greulawn am Dduw cyfiawn a chariadus, y gall Ef mewn gwirionedd galedu calon dyn, ac yna ei gospi am fod ganddo galon galed. Ond mae y Beibl yn dweyd felly yn ddigon eglur. Nid ydyw yn anhawdd cyfrif am y diffygion yma, os edrychwn ni ar y Beibl mewn modd rhesymol fel casgliad o lyfrau a ysgrifenwyd yn oesau boreu'r byd, gan ddynion nad oeddynt yn deall ond yn anmherffaith natur a chymmeriad Duw, a'r rhai a ysgrifenent yn ol syniadau poblogaidd am bethau yn eu hamser, ac nid gyda chywirdeb ysprydoliaeth wyrthiol. Yn y ffordd hyn nid yn unig yr ydym yn *cyfrif* am y diffygion yma, ond yr ydym yn gweled eu defnydd. Nid ydym yn cael ein gorfodi mwyach i'w hesponio ymaith neu eu gwadu, ond yr ydym yn rhoddi iddynt eu gwir le yn ngyrfa gynnyddol dadblygiad dynol; fel ag y mae pob gair yn y Beibl yn dyfod yn werthfawr fel dangoseg o un o agweddau amrywiol cynnydd y meddwl dynol.

Nid wyf fi yn credu, gan hyny, fod gwahanol lyfrau y Beibl i gyd o'r un awdurdod a'r un gwerth, neu fod gyda ni hawl i ddysgwyl iddynt fod felly, gan y gwelwn eu bod wedi eu hysgrifenu gan gynnifer o ddynion, ac mewn cynnifer o gyfnodau o amser. Nid yw rhai o'r llyfrau yn amlwg ond cofnodion cenedlaethol o ryfeloedd, a'r ymdrech am fywyd—dim ond hanes. Nid yw llyfrau ereill ond gosodiadau o'r hyn a feddyliai yr hynafiaid am bynciau mawrion, fel creadigaeth y byd, cychwyniad yr hiliogaeth, a dechreuad pechod; mae'n amlwg nad ydynt yn osodiadau dwyfol-ysprydoledig o ffeithiau gwirioneddol, ond yn gynnyrch meddwl a myfyrdod dyn ar y pethau yma. Mae llyfrau ereill, gan mwyaf, yn gynnwysedig o amlygiadau teimlad personol, fel y Salmau, tra mae ereill yn gofnodion brwdfrydig o'r hyn a ddywedodd ac a wnaeth y diwygwyr Iuddewig, fel Llyfr Esaiah a llyfrau ereill y proffwydi. Mae'n eglur, gan hyny, fod genym ni yn y Beibl, nid dadguddiad cyflawn, cysson, ac anffaeledig oddiwrth Dduw, ond cofnodiad o'r hyn a ddywedodd ac a wnaeth dynion ystyriol yn yr hen amser, yn eu hymdrechion i gael Duw allan, ac i esponio dirgeledigaethau mawrion y bydysawd.

Yr wyf yn credu, gan hyny, fod y Beibl wedi dyfod oddiwrth ddynion, yn yr hen amser, a ysgrifenent i lawr, nid pethau perffaith mewn modd gwyrthiol, nid pethau tuhwnt i'w hoes, ond y pethau goreu oeddynt yn wybod, yn ol y goleuni oedd ganddynt; rhai o honynt yn wir, fel materion hanes; rhai yn amheus, fel materion opiniwn; rhai pethau cywrain, fel materion damcaniaethol; rhai pethau diddefnydd, fel materion gwyddorol; rhai pethau yn ddoeth ac yn bur, fel materion moesol; rhai pethau yn mhell tuhwnt i ni gyd mewn materion crefyddol; ond pa un a fyddont yn hanes wir, neu opiniwn amheus, neu foesau pur, neu grefydd oruchel, maent i gyd yn ddefnyddiol i rai sydd yn myfyrio ar gynnydd y byd mewn gwybodaeth, neu yn fuddiol i athrawiaethu, i argyhoeddi, i geryddu, i hyfforddi mewn cyfiawnder.

Ydwyf fi ddim yn caru y Beibl yn llai, pa fwyaf y byddwyf yn chwilio i mewn iddo; ac nid wyf yn tynu oddiwrtho ei werth, oblegyd fy mod yn dweyd fod llyfrau ereill wedi derbyn ysprydoliaeth y nefoedd. Nid yw Dafydd yn canu yn llai melus i mi, oblegyd fy mod yn credu fod Watts a Herbert yn ysprydoledig, ac nid yw Paul yn pregethu yn llai goruchel oblegyd fod Channing i'm tyb i wedi yfed o'r un ffynnon anfarwol. Yr wyf yn diolch i Dduw am y Beibl, ynte, ac am bob enaid mawr a phob llyfr mawr; ond nis gallaf gredu fod yr Yspryd Glân wedi ei alw yn ol pan y cafodd y Testament Newydd ei ysgrifenu, neu fod llais Duw wedi dystewi ar ol iddo lefaru wrth yr Efengylydd diweddaf.

Yr wyf yn credu, gan hyny, nad y Beibl yw ein hunig athraw crefyddol, neu yr unig ddadguddiad ag mae Duw wedi wneyd i ni; oblegyd mae natur yn dweyd wrthym am Dduw yn gystal a'r Beibl; ac mae deddfau y bydysawd, profiad dynolryw, a'n meddwl a'n calon ein hunain yn ei ddadguddio. Yr wyf yn credu y gall yr holl bethau yma ddysgu i ni, a'u bod wedi eu bwriadu i ddysgu i ni y gwirioneddau moesol a chrefyddol uwchaf. Yr wyf yn credu fod Duw yn llefaru wrthym ni yn y Beibl; ond yr wyf hefyd yn credu ei fod yn llefaru wrthym yn ei holl weithredoedd; fod pob mynydd a phob gwastadedd yn bennod, a phob blodeuyn yn adnod. Yr wyf hefyd yn dal ei fod yn llefaru mewn pob hanes, yn ffeithiau y byd ac yn mywydau dynion. Ac nid llai cadarn ydwyf yn credu ei fod yn llefaru ân ein calonau ein hunain, a thrwy oleuni ein rheswm. Mae addoli y llyfr, gan

hyny, ar draul dibrisio pob peth arall, yr un fath, a derbyn un genad o'r nef, ac allon y rhai ereill ymaith ; yr hyn nid yw yn anrhydedd ond anmharch iddo Ef, yr hwn a'u banfonodd. Yr wyf fi yn dymuno derbyn holl weision Duw; ac nid wyf am addoli rhyw genad neilldnol fel *favourite*. Mae gan ein holl athrawon eu lle cymhwys :—y llyfr gyda'i eiriau amrywiol; natur gyda'i dirgelion hybarch a'i ffeithiau gogoneddus; profiadau dynion gyda'u gwersi ydynt byth yn wir; a'n calonau ein hunain ydynt bob amser yn tystiolaethu dros Dduw os cadwn ni hwy yn bur. Yn y modd hyn y dymunwn helaethu seiliau fy nghred, er mwyn cynnwys pob tyst dros Dduw :—llenyddiaeth, gwyddor, celfyddyd, hanes a rheswm, oll yn uno mewn un cydgor mawr i dystiolaethu am Dduw. O ganlyniad, nid wyf yn cael fy aflonyddu, ond yn hytrach yr wyf yn llawenhau, pan mae gwyddor yn adrodd ei dadgnddiadau rhyfeddol, a natur yn dadlenu ei dirgeledigaethau. a rheswm yn mynegu ei llais gogoneddus ; oblegyd nid wyf wedi gosod y cwbl i ymddibynu ar un bennod, nac wedi *risko* fy nghred ar ryw un adnod ; ond yr wyf yn sefyll yn barod, gan ddysgwyl gwirionedd Duw o ba le bynag y delo.

Y BYWYD DYFODOL.

Yr wyf yn credu mewn bywyd i ddyfod i bawb, —bywyd gwir sylweddol yn ei deimladau, ei ddyledswyddau, a'i waith. Yr wyf yn credu "na watworir Duw," ond "beth bynag a hauo dyn, hyny befyd a fed efe." Nid wyf yn credu fod Duw wedi dangos yn gyflawn beth yw gwynfyd y "gwaredigion," neu beth yw poenau y "colledig." Yma ac acw, yr ydym yn cael cipolwg ar ogoniant yr un, ac yma ac acw gysgod o drueni y llall; ond mae Efe wedi gadael yr oll felly, fel, tra y byddo lle ar un llaw i ffydd a gobaith, mae digon o gymhelliadau yn bodoli ar y llaw arall, i'n harwain ni gyda phob difrifoldeb i ymofyn am Dduw, fel y gallom ei adnabod ac ufuddhau iddo. Ond nid wyf yn credu mewn uffern o dân lle y bydd Duw'r cariad yn poenydio am byth ei blant annedwydd. Nid wyf yn credu fod Duw wedi parotoi dychrynfeydd tragwyddol i gospi pechodau ychydig flynyddau, ond fod cyfiawnder a thrugaredd yn llywodraethu hyd y nod yn uffern. Yr wyf yn credu mai ystyr y nefoedd yw gwasanaeth ac ymwybodolrwydd o gariad Duw, ac mai uffern yw cysgod nos, dirgelwch yr hwn nis gall neb ei dreiddio, ond parhad yr hwn sydd raid fod yn derfynedig. Yr wyf yn credu fod y nefoedd yn llawer mwy prydferth nag a baentiodd breuddiwyd dyn erioed, a bod uffern yn fwy ofnadwy yn wirioneddol nag y teimlodd neu yr ofnodd dyn erioed ; ond pa un ai yn y nefoedd neu yn uffern, yr wyf yn credu y bydd yr enaid o dan lywodraeth y Duw hwnw ag mae ei gyfiawnder mor berffaith a'i gariad, a'i gariad yn holl berffaith a thragwyddol. Nid yw fy nghred gan hyny yn ngwobrau a chospau y bywyd dyfodol yn gred o ddychryn cowardaidd, neu obaith hunanol, ond o hyder tawel a siriol yn nghyfiawnder, trugaredd, a doethineb ein Duw a'n Tad ; cyfiawnder, trugaredd, a doethineb o'r rhai y cyfranoga pawb hyd y nod yr enaid iselaf yn mharthau iselaf uffern. O ganlyniad, nid ydwyf yn credu fod uffern yn lle wedi ei amddifadu o Dduw, ac wedi ei roddi i fyny i ysprydoedd drwg, neu y bydd i'r rhai ydynt wedi colli'r nefoedd gael eu poenydio yno am byth, mewn fflam hir, angerddol, a chreulawn; dim gobaith, dim cyfiawnder, dim tosturi iddynt am byth. Yr wyf yn diolch i Dduw nad ydwyf yn credu hyna. Mae'r pwnc wedi ei adael mewn llawer o ddirgelwch ; ond yr wyf yn credu gyda'r holl hyder sydd genyf yn Nuw, y bydd Ef yn gwylied hyd y nod ar gospau y colledig; nid fel bod digllawn yn dial, ond fel Tad yn gwylied yr afradlon o hirbell, ac yn dysgwyl ei ddychweliad.

Nid wyf yn credu y gall Duw fynwesu y teimladau a'r nwydau sydd yn perthyn i ddyn. Mae ei ddigofaint mor dawel â'i gariad ; ei gosp mor ddaionus â'i wobr. Mae dynion yn anghofio hyn. Maent yn priodoli i Dduw y cyfnewidiadau meddwl a'r nwydau maent yn gael mewn dyn, ac felly maent yn barnu am Dduw fel maent yn barnu am ddyn. Ond mae hyn yn annoeth ac yn niweidiol. Dros y meddwl tawel a bendigedig hwnw nid yw ystormydd nwydau byth yn chwythu, nid yw teimladau o ddigofaint a dialedd byth yn ei aflonyddu. Nis gall fod, gan hyny, yn agored i wir ddigllonedd, casineb, a dialedd. Mae yr holl eiriau yma, pan yr arferir hwy am Dduw, fel rheol, yn camarwain ; ar y goreu maent yn annigonol. Oblegyd mae ei ddigofaint,—yr hyn a alwn ni yn ddigofaint,—gymmaint o'n hochr ni â'i gariad.

Felly ar bob golwg mae'n anmhossibl y bydd Duw yn cospi yn dragwyddol. Nis gallai wneyd hyny oddiar ddialedd yn unig; mae'n anmhossibl credu hyny. Nid oes angen arno i amddiffyn ei gyfraith, gan fod hyny yn cael ei ddangos yn well yn nedwyddweh y rhai ydynt yn gwneyd daioni nag yn nhrueni y rhai ydynt yn gwneyd drwg. Wna Efe ddim o hyny er atal y dieuog, gan na all ei berffaith gyfiawnder byth ganiatau i ddrwg tragwyddol, hyd y nod mewn cyssylltiad â'r iselaf o'i greaduriaid, i ddwyn i ben y daioni mwyaf; oblegyd mae goruchwyliaethau Duw, hyd y nod at yr euog a'r gwrthodedig, yn cael eu cyfarwyddo gan gyfiawnder anfeidrol a daioni tragwyddol. Yr wyf yn credu, ynte, fod yn nhŷ fy Nhad tuhwnt, lawer o drigfanau, wedi eu haddasu ar gyfer pob gradd o gyflwr ysprydol a moesol; fod plant bychain i gyd yn myned ar unwaith at Dduw, "eu hangylion" yn gweled ei wyneb am byth; ac y caiff pawb ydynt yn flin, mewn brwydrau celyd, yn anwybodus, yn cael eu llethu gan ofal a phryder,—y caiff pawb o'r cyfryw, addysg a goleuni, a llaw i'w cynuorthwyo yn y dyfodol. Credu rhywbeth yn wahanol i hyn fyddai cyhuddo Duw o greulondeb, gwneyd bywyd yn felldith, a pheri i ni i gyd deimlo y byddai yn well arnom pe na byddem wedi ein geni erioed. Yr wyf yn credu nad yw y byd hwn ond un yn unig o'r ystafelloedd yn nhŷ y Tad mawr, a bod tyner dosturiaethau Duw dros oi holl weithredoedd yn y byd arall yn gystal ag yn hwn, ac er gwaethaf yr hyn y gall dynion a chredoau ddweyd yr wyf yn credu fod EIN DUW NI YN GARIAD, AC Y BYDD YN GARIAD I BAWB DYNION AC YN YR HOLL FYDOEDD AM BYTH.

Dyma fy Nghyffes Ffydd. Os wyf yn *right*, yna mae Duw yn anfeidrol gwell ac yn anfeidrol mwy cariadus nag y mae y dduwinyddiaeth boblogaidd yn gwneyd allan ei fod. Os wyf yn *wrong*, yr wyf yn gwybod o leiaf fy mod wedi ymdrechu bod yn *right*; a gallaf yn sier obeithio fod Duw yn rhy gyfiawn ac yn rhy gariadus i'm condemnio am ddyfod o hyd i gyfeiliornad, pan y darfu i mi wneyd fy ngoreu i ddyfod o hyd i'r gwirionedd. Ond mae fy hyder cadarn mewn Duw o gyfiawnder yn fy ngwneyd yn sier nad ydwyf, wrth ddyfod i'r casgliadau yma, wedi erwydro yn mhell oddiwrth y ffordd iawn.

CAREG AT GYFODI COFGOLOFN I GWILYM Y IV.—Cafodd Duc Clarence, wedi hyny Gwilym y IV., ar ol gwasanaethu ei wlad yn ffyddlon ac yn dda am hir amser, ei bennodi yn gadben ar y *Frigate* "*Pelagus*." Un boreu teg yn Ebrill, pan ar ei ffordd at ei deiliwr i gael y wisg addas i'w swydd newydd, daeth ar draws bachgen bychan yn wylo. Arosodd i ofyn beth oedd y mater. Edrychodd y bachgenyn i fyny trwy ei ddagrau, gan ddangos ar yr un pryd wyneb hardd a deallus, ac atebodd fod ei fam wedi marw ychydig ddyddiau yn ol, ac yntau wedi ei adael yn ddigartref. "Pa le mae eich tad?" ebe'r Tywysog. "Collwyd of yn y *Sussex* ddwy flynedd yn ol." "Ac nid oes genych gyfeillion?" "Dim cyfaill yn y byd, Syr." "Yna mae yn rhaid i mi ffeindio un i chwi. Beth yw eich oed?" "Yr wyf yn 13." "A gareth chwi fyn'd i'r mor?" Gwenodd y bachgen, a dywedodd y carai yn fawr iawn. Tynodd y Tywysog lyfr allan, ac ysgrifenodd rywbeth ar ddarn o bapyr, a rhoddodd ef i'r bachgen, yn nghyd â swllt. "Ewch i lawr i'r *Dock*," ebe fe, "a hiriwch fad i'ch cario i'r *Pegasus*, a phan ddeuweh i'r llong, rhoweh y papyr yna i'r swyddog, ac efe a ofala am danoch, ac yn awr *cheer up* fy machgen i—dangosweh fod genych galon gywir, a chewch gyfaill cywir ynof fi." Diolchodd y bachgen yn wresog iawn, ac ymaith ag ef. Derbyniwyd of yn garedig ar y llong, ac yn mhen awr daeth y Tywysog ar ei ol yn ei wisg newydd. Cynhyrfwyd y bachgen yn ddirfawr pan ddeallodd mai'r Duc oedd yr hwn a ymddygodd mor garedig ato. Wedi i'w Fawrhydi ei holi, a chael ei foddloni yndclo, deallodd mai ei enw oedd Albert-Doyer; penodedd of yn *midshipman*, a mynodd wisg addas iddo ar ei draul ei hun, ac nid edifarhaodd. Tyfodd y bachgen yn ddyn, a phrofodd ei fod yn gywir o galon. Pan aeth y Tywysog yn Frenin, daeth galw arno i wneuthur Albert-Doyer yn *Rear-Admiral*; a phan yn llawnodi y *document* ofo a ddywedodd, "Dyna, os gwnaethum weithred dda erioed dros fy ngwlad, gwnaethum hi wrth achub i'w gwasanaeth y dyn cywir a theilwng hwn.—F. H.

Marwgofion.

Mai 20, 1872, Margaret Lloyd, gynt o Penrhiw Cellan, Ceredigion, yn nhŷ ei mab yn Rhymni, ar ol byr cystudd, yn 75 oed. Bu yn aelod selog am flynyddoedd meithion yn Cae'ronen, Cellan. Ar ei chais arbenigol hi, mynodd ei mab, a boed uchel glod iddo am hyny, ei chladdu hi yn mynwent Hen Dŷ Cwrdd Cefncoedycymer. Ein dymuniad yw, "boed hedd iddi yn ei gorweddfa, a dedwyddwch digymmysg y wynfa nefol yn y sefyllfa ddyfodol."

Medi 14, 1873, Elizabeth Williams, anwyl briod Watkin Williams, Sychnant, Cellan, Ceredigion, ar ol cystudd blin a nychlyd am flynyddoedd, yn 61 oed. Derbyniwyd hi yn aelod o Eglwys Cae'ronen, er ys dros 25 o flynyddoedd yn ol, a daliodd ati yn ffyddlon a diargyhoedd hyd y diwedd. Claddwyd hi yn Nghae'ronen. Gweinyddwyd yn ei hangladd gan y Parch. Rhys C. Jones, yn ddeheuig ac adeiladol nodedig.

Ebrill 9, 1874, Evan Lewis, ieu., mab Evan a Margaret Lewis, Glanrhyd, Parc-y-Rhos, Pencareg, ger Llanbedr Ceredigion, ar ol yspaid maith o nychdod blin, o ddarfodedigaeth yr ysgyfaint, yn 22 oed. Cafodd fanteision dysgeidiaeth yn ei fabdod; yr oedd yn ysgolor gwych, a defnyddiodd ei holl oriau hamddenol i goethi ei feddwl, a chyrhaedd gwybodaeth. Dylynai yr Ysgol Sul yn wastad, ac ymunodd fel aelod crefyddol â'r Bedyddwyr. Parhaodd i ddarllen a myfyrio, ac yn fuan, dechreuodd ysgrifenu i gyfarfodydd llenyddol ac eisteddfodau lleol, a bu yn fuddugol ar amryw destynau, mewn rhyddiaeth a barddoniaeth. Ond mwy nâ'r cwbl, yr oedd o nodweddiad moesol difrycheulyd, a chredwn yn gadarn iddo huno yn dawel yn yr Iesu.

Mai 10, Elizabeth Davies, mam Mr. Rees Davies, Penlan Carreg, swydd Caerfyrddin, yn nhŷ ei mab, yn 81 oed. Bu gwrthddrych ein nodion byw bywyd moesol a chrefyddol drwy ystod ei hoes. Yr oedd hi yn aelod er ys blynyddoedd gyda'r brodyr parchus y Bedyddwyr, a dian fod marw yn elw iddi hi. Ar ddydd ei hangladd ymgynnullodd tyrfa luosog o'r ardalwyr yn berthynasau a chyfeillion i'w hebrwng i gladdfa Eglwys y Plwyf, pryd y gweinyddwyd ar yr achlysur gan y Parch. Stephen Thomas, ei gweinidog, wrth y tŷ yn Penlan, yn dra chymhwys a deheuig; yna hebryngwyd hi i "dŷ ei hir gartref," hyd y boreu—

"Y caiff pawb gyfodi a byw
Trwy 'wyllys da a gallu Duw."

Mai 11, William Thomas, mab y diweddar David Thomas, Esgaironen Fach, plwyf Llanybydder, swydd Gaerfyrddin, yn 21 oed, o'r darfodedigaeth. Treuliodd y cyfaill ieuanc hawddgar hwn y rhan fwyaf o'r ddwy flynedd ddiweddaf o'i oes yn y Brif Ddinas, sef Llundain, mewn masnachdy enfawr. Dechreuodd ei iechyd ddadfeilio yn gynnar yr ail flwyddyn o'i arosfa yno, chwythodd deifwynt y *decline* ar ei gyfansoddiad gwanllyd yn barhaus, nes ei ddychwelyd yn araf i'r "tŷ rhagderfynedig i bob dyn byw." Cafodd y fraint o dreulio ei ddyddiau olaf—pan mewn nychdod blin, yn ei gartref cynwynol yn nhŷ ei fam. Yr oedd yn ddyn ieuanc talentog iawn yn ei alwedigaeth, ac yn foesol yn ei ymarweddiad. Claddwyd ef y dydd lau canlynol yn nghladdfa Eglwys Blwyfol Llanbedr, yn ymyl ei dad. Bydded i'w anwyl fam alaru yn gymmedrol ar ei ol, gan gofio fod yr Hollalluog ddoeth a chariadlawn Dad yn dwyn pob peth oddiamgylch yn modd y goraf possibl er lles gwirioneddol ei holl blant.

TEIFIWYSON.

Mai 31, yn 30 oed, ar ol cystudd maith, Hannah, gwraig Evan Williams, Pwllybilwg, Llanwenog. Claddwyd hi yn mynwent Eglwys Llanwnen, a gweinyddwyd ar yr achlysur gan John Davies, Allyplaca. Gadawodd i alaru ar ei hol, briod, dau blentyn, yn nghyd â rhieni a pherthynasau lawer. "Nid marw hi, ond cysgu y mae."

Mehefin 1, yn 3 mis oed, Sarah, merch Dafydd a Margaret Richards, Penygraig, Llanwenog. Claddwyd hi yn mynwent Pantydefaid, a gwasanaethwyd ar yr achlysur gan John Davies, Capel-y-Bryn. "Eiddo y cyfryw rai yw teyrnas nefoedd."

Meh. 1, wedi cystudd byr, ond caled, yn 64 oed, Daniel James, Lletty'rwenol, Llan-

wenog. Hebryngwyd ei weddillion marwol i gladdfa Capelygroes, gan dyrfa fawr o gyfeillion, y rhai a anerchwyd ar yr achlysur galarus gan y Parch. John Davies. Dyn o feddwl cryf oedd Daniel James, o wybodaeth eang yn yr Ysgrythyrau, ac o benderfyniad diysgog. Rhagor o'i fath ef sydd yn eisieu i wneyd yr achos Undodaidd yn fwy llwyddiannus.

Meh. 14, yn 8 flwydd oed, wedi cystudd maith, Margaret, merch David ac Elizabeth Jones, Brynllefrith, Llanwenog. Claddwyd hi yn mynwent Eglwys y Plwyf, a gweinyddwyd ar yr achlysur gan y Parch. John Davies a David Evans, B.A.

Meh. 14, yn 23 oed, David, mab Evan Thomas, Ffinnantganol, Llanwenog. Ni chafodd ond cystudd byr iawn. Cymmerwyd ef yn glaf o enynfa yr ymhenydd, ac er gwaethaf nerth corfforol a medrusrwydd meddygol, fe brofodd y clefyd yn angeuol iddo. Yr oedd yn ddyn ieuanc addawol, wedi ennill iddo ei hun eisoes ymddiried ei gymmydogaeth, a diau pe cawsai fyw flynyddoedd yn hwy ar y ddaear, y byddai iddo ddyfod yn ddefnyddiol iawn. Dydd ei gladdedigaeth, darllenwyd a gweddiwyd yn y tŷ gan y Barch. Mr. Elban, curad y plwyf; pregethwyd gan y Parch. John Davies, a gorphenwyd y gwasanaeth yn y drws gan y Parch. Mr. Thomas, Aberduar. Yna hebryngwyd ef i dŷ ei hir gartref yn mynwent Eglwys y Plwyf, gan dyrfa luosog iawn.

Meh. 18, yn 11 oed, Margaret, merch Jenkin Jones, Trafle, Llanwenog. Claddwyd hi yn mynwent Eglwys St. Ioan, Llandyssul. Gweinyddwyd ar yr achlysur gan y Parch. John Davies a Mr. Thomas, Aberduar. Angel pur ydoedd Margaret, ac y mae wedi myned i "wlad well" i uno ag angylion fel hithau. Rieni anwyl, na wylwch pan y mae eich merch fechan yn canu'n beraidd yn ngwlad y goleuni tragwyddol.—J. D.

Meh. 18, o'r darfodedigaeth, yn 17 oed, David Jones, mab Timothy ac Anne Jones, Bwlchygwynt, Cribin. Yr oedd y dyn ieuanc hwn yn meddu ar dalentau mawrion, ac yr oedd wedi eu gwrteithio yn ffyddlon yn ystod ei arosiad byr ar y ddaear. Yr oedd yn fawr ei fryd am dd'od yn ysgolhaig da er mwyn bod yn weinidog Undodaidd, ac yr oedd yn ymbarotoi (o dan ofal y Parch. R. C. Jones), ar gyfer Coleg Caerfyrddin, tra y parhaodd ei nerth. Dangosodd Duw yn y peth yma etto mai nid fel y mae dyn yn meddwl y mae Ef yn meddwl, a galwodd ar ein cyfaill ieuanc oddiwrth ei waith at ei wobr. Dydd Mawrth canlynol daeth tyrfa luosog i hebrwng ei weddillion i fynwent Capelygroes, pryd y gweinyddwyd gan ei hen feistr.

Gorph. 16, yn 42 oed, Catherine, anwyl briod Thomas Morgan, Butcher's Arms, Aberdar. Dyoddefodd yr ymadawedig gystudd maith a thrwm. Claddwyd hi y Llun canlynol, yn mynwent Eglwys Heolyfelin. Cyn cychwyn o'r angladd o'r tŷ, gweinyddodd y Parch. E. W. Lloyd, Cwmbach.

Barddoniaeth.

YR ENGLYN

Canlynol a gyfansoddwyd yn ngwyneb hèr cyfaill nad allasai yr awdwr wneuthur Englyn yn cynnwys y geiriau "Llanrhaiadr-yn-Mochnant," a "Rhosllanerchrugog."

Y Calfiniaid cul, fynant—eu rhodres
Yn Llanrhaiadr-Mochnant;
'N Rhosllanerchrugog crogant
Pob Armin, Sosin, a Sant.

G. G.

"PRIODAS DDA"

I Mr. Evan Davies, Blaenaugwenog, a Miss M. E. Lewis, Tyddyndu.

Mae siarad am rwymau tynion serch,
A son am linynau cariad,
A'r rhai y cylymir mab a merch,
Gan *rywbeth* yn *un* diwahaniad.
Nis gwelais i 'run o'r pethau hyn,
Er hyny credwyf 'am danynt,—
A dyma ddau ettoſâ'u calonau'n dŷn
Yn gystal â'u dwylaw ynddynt.

Priodas dda, ffryndiau, ac awyr ddilen,
A *rhwymau'ch* undeb fo'n *rhyddid*;
Eich haul aroso ar wastad y nen
Ar bwynt canol dydd drwy'ch bywyd.
Yr ydych yn *rhwym*; ond dyma'r gwir—
Yn rhwym i *garu*—dim arall,—
A beth ydyw hyny ond rhyddid pur
I ddau sydd *yn* caru mor ddiwall.

Mae'r byd yma'n ddrwg a llawn o ddrain,
Er hyny mae ynddo 'i flodau;—
Yn mhell y bo'r drain, a'r blodau cain
Fo'n brodio ymylon eich llwybrau;
Disgyned arnoch gawodau o fêl,
Y fath ag sy'n arfer disgyn
Ar bob dwy galon fyddo dan sel,
Gan felusu'ch oes i'w therfyn.

Priodas dda, ffryndiau, a thŷaid glan
O rai bach,—cenadon gwynfyd,—
Sy'n twymo aelwyd yn fwy nâ thân,—
Sy'n cyfoethogi yn fwy nâ golud,—
Pêr fiwsig, fel miwsig tyner ha',
Yw lleisiau 'r rhai bychain hyny;—
Gan "ddechreu'ch byd" mewn "*Priodas dda*,"
Parhaed eich blynyddau felly.

Mai 25ain, 1875. GRANELLIAN.

YCHYDIG LINELLAU

Er cof am Dafydd Rees Vaughan, yn fwy adnabyddus wrth yr enw "Dafydd yr Heliwr." Ceisiodd genyf fi lawer gwaith i wneuthur hyn, os buaswn byw ar ei ol, ac felly mae wedi dygwydd. Er ei fod wedi aros yn nghymmydogaeth Llanwnen am y rhan fwyaf o'r ugain mlynedd diweddaf, etto nis gwn i dyn o ba le yr oedd, er i mi glywed mai yn mhlwyf Llanfihangel-geneu'r-glyn y ganwyd ac y magwyd ef, ta fater yn mha le. Bu farw, Chwefror, 1875, tua thriugain oed, a chladdwyd ef yn mynwent Silian.

DANIEL GLOFF.

Dyn yw dyn, er tyfu'n llydan,
Dyn yw'r dyn tylotaf allan,
Dyn yw'r brenin goreu 'i gyflwr,
Dyn o rywle oedd yr Heliwr.

Dyn fu mam rhag cam yn wylio,
A'i braich dyner fach o dano;
Dyn bu Tad pob trugareddau
'N peri ei gwsg, a'i effro'r boreu.

Dyn o nodau da iawn ydoedd,
Dyn yn medru dawn ymadrodd;
Dyrys bennod daer esboniai,
Heb draws neidio dros adnodau.

Dyn o anian onest, eirwir,
Dyn a garai fod yn gywir;
Er rhoi tafod drwstan weithiau,
Nyth aderyn byth ni dorai.

Talwn barch i bob daioni,
Os drwg hanes gaiff drygioni;
Dyn fo gyfaill pawb yn gyfan,
Dyn na ddaeth erioed o unman.

Dyn yw dyn beth bynag fyddo,
Liw a delw, gorph a dwylo;
Dyn mewn gwisg o'r hardda'i gweled,
Dyn bob tymhor noeth bob tammed.

Brodyr byddwn bawb, rhag c'wilydd,
Fel un galon am ein gilydd,
Plant 'run Tad anfeidrol, tyner,
'N hunain 'r achos o'n holl waelder.

ENGLYNION

I'r diweddar Mr. John Lewis, (Ioan Mynyw), Tregaron. Buddugol yn Eisteddfod Talsarn, Mehefin, 1874.

Un mwyn oedd Ioan Mynyw,—hwn gafwyd
Yn gyfaill diledryw;
Nid hawdd yw nodi, heddyw,
Un o'i fath o awen fyw.

Oedd Fardd a nawdd i feirddion,—a beirniad
Heb arnŏ ddiffygion;
Ei bêr waith lona'r Brython
Drwy y Sir, wedi'r oes hon.

Trwy gu orawr Tregaron—i gannoedd
Bu'n gweini cyssuron;
Ein harwr, flwyddi hirion,
A llaw hedd fu'n llywio hon.

Y Llenor enwog llawn o rinwedd—drodd
Yn drist iawn ei agwedd;
Er ei ddawn a'i arddunedd
Fficiddiai fyw, *hoffodd fedd*.

DEWI HEFIN.

JENKIN HOWELL, ARGRAFFYDD, ABERDAR.

TALIADAU.

J. J., Hendryd; S. H., Cribin; E. J., Carmarthen; M. M., Gelliddu; J. E., Newcastle; D. P., St. Clears; T. Ll., Porthcawl; E. E., Cilian; O. J., Abernant; D. E., Rhymney; D. E., Troedyrhiw; J. L., Dowlais; E. G., Aberdare; J. J., Ty'rdref; J. L., Pantyegawen; Dewi Iago; P. E., Treorkey; D. L. M., Brynaman; W. J., St. Bride's; T. J. P., Trelech; S. E., Frowen; D. T., Liverpool; W. L., Pontypridd; J. E., Nantgwyn.

AT EIN GOHEBWYR.

Ar C.—Ar y funyd ddiweddaf, o herwydd prinder lle, gorfu arnom adael allan eich ysgrif ar "Ein Cyrddau Chwarterol."

America.—Mae Mr. John R. Thomas, Youngstown, Mahoning County, Ohio, U.S.A., yn garedig iawn wedi addaw actio fel *Agent* i'r Ymofynydd yn America. Pris yr Ymofynydd yw 3 ceiniog, *postage* i'r America ceiniog. Am flwyddyn trwy'r post 4 swllt. Gall ein darbynwyr yn rhwydd gyfrif faint fydd yn gyfartal i 4 swllt.

PIGION O EMYNAU.

AIL ARGRAFFIAD,

Yn cynnwys 31 o Emynau, o waith amryw awdwyr, pris ceiniog, neu wyth swllt y cant. Anfonir 25 a throsodd yn rhydd trwy'r post.

☞ Dealler nad ydys wedi bwriadu hwn i fod "Y Llyfr Emynau," ond yn unig i lanw bwlch dros amser, ac i gyfarfod ag angenion gwaeddfawr ein cynnulleidfaoedd. Pob archebion i'w hanfon at Olygydd Yr Ymofynydd

CYFFES FFYDD UNDODWR,

GAN

JOHN PAGE HOPPS.

24 tdd. Pris naw ceiniog y dwsin, neu 3s. a 6c. y cant.

Dyma gyflenwad i gyfeillion wneuthur rhywbeth tuag at daenu egwyddorion Undodaidd. Anfonir hwy yn rhad trwy'r post am y teleran uchod. Anfoner at The Editor of Yr Ymofynydd, Mount Pleasant Garden, Aberdare.

RHWYMIR LLYFRAU

O bob math, yn dda, ac am brisoedd rhesymol, gan JENKIN WILLIAMS, 5, Back Mount Pleasant, Treeynon, Aberdare.

AT EIN DARLLENWYR.

Telerau.—Un copi, 3c., gyda'r post 3½.; ar dri chopi a rhagor, telir y cludiad.

Anfoner mewn stamps neu order at—"Rev. W. James, B.A., 36, Gadlys Street, Aberdare."

☞ *Pob Archebion a Gohebiaethau i'w hanfon yn gyfarwydd,—*

The Editor of "Yr Ymofynydd,"
Mount Pleasant Garden,
ABERDARE.